# Agenda - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

**Hybrid**

Dyddiad: Dydd Llun, 18 Mawrth 2024

Amser: 14.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Price** - Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

Deisebau@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(Tudalennau 1 - 18)

## 2 Sesiwn dystiolaeth - Trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bobl ifanc

(Tudalennau 19 - 23)

Carole Stewart, Transport Scotland

Confederation of Passenger Transport (CPT)

## 3 Deisebau newydd

3.1 P-06-1395 Atal datblygiadau newydd sylweddol ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Gwastadeddau Gwent

(Tudalennau 24 - 37)

3.2 P-06-1404 Cynyddu eglurder a hawliau'r rhai sy'n cael taliadau uniongyrchol neu Grant Byw'n Annibynnol Cymru er mwyn iddynt fyw'n annibynnol

(Tudalennau 38 - 48)

3.3 P-06-1406 Cosbau ariannol i Awdurdodau Addysg Lleol nad ydynt yn cydymffurfio â'r amserlenni ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol.

(Tudalennau 49 - 55)

3.4 P-06-1408 Dylid gwneud y mynediad i Ardd Gudd A4042 Goetre Fawr yn ddiogel ar gyfer cerddwyr a cherbydau

(Tudalennau 56 - 61)

## 4 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

4.1 P-06-1326 Dylai'r Senedd graffu ar y sgandal mesuryddion rhagdalu yng Nghymru

(Tudalennau 62 - 74)

4.2 P-06-1359 Dylid cynnig yr un cymorth ariannol ar gyfer gofal plant i rieni sy'n gweithio yng Nghymru â'r hyn sydd ar gael yn Lloegr

(Tudalennau 75 - 76)

4.3 P-06-1362 Dylid darparu cynnig cyfatebol yng Nghymru i'r cynnig gofal plant newydd yn Lloegr, sef 15 awr, ar gyfer plant 2 flwydd oed o fis Ebrill 2024

(Tudalennau 77 - 84)

4.4 P-06-1369 Defnyddiwch enwau Cymraeg yn unig ar gyfer lleoedd yng Nghymru

(Tudalennau 85 - 88)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 6 Trafod y dystiolaeth

# Eitem 1

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Senedd Cymru | Welsh Parliament
Ymchwil y Senedd | Senedd Research

# P-06-1395 Atal datblygiad newydd sylweddol ar SoDdGA Gwastadeddau Gwent

Y Pwyllgor Deisebau | 18 Mawrth 2024
Petitions Committee | 18 March 2024

**Cyfeirnod:** SR24/7850-1

**Rhif y ddeiseb:** P-06-1395

**Teitl y ddeiseb:** Atal datblygiad newydd sylweddol ar SoDdGA Gwastadeddau Gwent

**Geiriad y ddeiseb:** Mae Gwastadeddau Gwent yn dirwedd hynafol sy'n gyfoethog o ran diwylliant ac sy'n bwysig ar gyfer bioamrywiaeth, hamdden, lliniaru effeithiau llifogydd, storio carbon a chynhyrchu bwyd. Mae bellach yn wynebu cynigion i ddatblygu sawl cynllun ynni solar enfawr cyfagos, ymhlith cynigion datblygu eraill. Ni all system gynllunio Cymru yn ei ffurf bresennol reoli datblygiadau o'r fath, a byddai'r dinistr y byddai'r datblygiadau hyn yn ei achosi o dan y trefniadau presennol yn rhoi diwedd ar y gwlyptir hardd, bregus a chymhleth hwn.

Mae pwysau cynyddol am ddatblygiadau ynni solar ar raddfa gyflym iawn, yn ogystal â datblygiadau eraill (fel parciau busnes), ar SoDdGA Gwastadeddau Gwent, yn ogystal â methiant systemig a hirsefydlog i'w reoli. Er enghraifft, mae'r ymdrechion i symud neu hyd yn oed liniaru'r difrod difrifol a achoswyd gan yr unig fferm solar a adeiladwyd yno hyd yma (yn Llanwern), drwy ddefnyddio amodau cynllunio, wedi methu. Mae'n ddigon posibl bod lefelau llygredd yn y safle ac yn agos ato wedi cynyddu. Mae cornchwiglod, aderyn

prin sy'n nythu yng Nghymru, wedi'u gyrru i ddifodiant yno. Newid hinsawdd yw'r prif fygythiad i fioamrywiaeth yn fyd-eang.  Mae angen gweithredu ar y cyd ym mhob maes polisi, gan gynnwys ynni adnewyddadwy – ond ni ddylai hyn ddod ar draul bioamrywiaeth. Mae Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn drysorau: Maent yn safleoedd o bwysigrwydd ledled y DU sydd wedi'u dynodi'n statudol ar gyfer bywyd gwyllt.  Gan gwmpasu dim ond 12 y cant o dir Cymru, ni ddylid eu targedu ar gyfer datblygiadau adeiledig mawr, pan fo miloedd o hectarau o dir a thoeau ledled Gwent a Chymru yn llawer mwy addas.

# 1.  Y cefndir

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn nodi mai SoDdGa yw'r "safleoedd pwysicaf o safbwynt treftadaeth naturiol Cymru". Maent, yn ôl disgrifiad CNC, "yn safleoedd gwarchodedig iawn, a hynny er mwyn diogelu'r ystod, yr ansawdd a'r amrywiaeth o gynefinoedd, rhywogaethau a nodweddion daearegol" a geir ynddynt.

Mae gan bob SoDdGA ddatganiad rheoli safle sy'n nodi pam mae'r safle'n arbennig a sut y dylid ei reoli.

## Gwastadeddau Gwent

Gwastadeddau Gwent yw'r enw torfol ar nifer o SoDdGA gwahanol i'r de o Gasnewydd, ac sy'n ymestyn i'r gogledd o Aber Afon Hafren. Mae'r deisebydd yn galw am atal datblygiadau sylweddol ychwanegol ar y Gwastadeddau ac yn awgrymu nad yw polisi cynllunio presennol yn gallu rheoli datblygiadau o'r fath.

Efallai mai'r datblygiad amlycaf a gynigiwyd mewn  perthynas â Gwastadeddau Gwent oedd Cynllun ffordd liniaru'r M4. Yn yr achos hwn, penderfynodd Mark Drakeford AS, y Prif Weinidog,  yn erbyn y cynllun yn 2019,  er gwaethaf argymhelliad yr arolygydd annibynnol i fwrw ymlaen ag ef. Dywedodd y Prif Weinidog y canlynol:

> Rwy'n rhoi pwys mawr iawn ar y ffaith y câi'r Prosiect effaith andwyol sylweddol ar Wastadeddau Gwent.

Yn 2021 cyhoeddodd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, ddatganiad ysgrifenedig am y camau a oedd yn cael eu cymryd i warchod a rheoli Gwastadeddau Gwent yn well. Roedd y datganiad yn cyfeirio at benderfyniad

ffordd liniaru'r M4 ac yn amlinellu'r camau roedd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddiogelu'r Gwastadeddau gan gynnwys sefydlu gweithgor Gwastadeddau Gwent. Roedd y datganiad yn amlinellu prif flaenoriaethau'r grŵp.

## Polisi cynllunio

Caiff penderfyniadau yngylch ceisiadau cynllunio eu gwneud yn unol â pholisïau cenedlaethol a lleol, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall.

Mae fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn cynnwys Polisi Cynllunio Cymru, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – Cymru'r Dyfodol, a chyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TAN). Mae nifer o bolisïau wedi'u datblygu i warchod Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Cafodd Adran 6 o Bolisi Cynllunio Cymru ei diweddaru ym mis Hydref 2023 ac mae'n nodi:

> Dylid osgoi unrhyw ddatblygiad ar SoDdGA os nad oes ei angen at ddiben rheoli'r safle…Caiff yr hyn sydd ei angen er mwyn rheoli safle ei ystyried fesul achos ond mae'n debygol o fod yn gyfyngedig i'r gweithgareddau sydd eu hangen i gyflawni ei amcanion cadwraeth…
>
> …Ceir rhagdybiaeth yn erbyn pob math arall o ddatblygiad mewn SoDdGA fel mater o egwyddor a dylai'r rhagdybiaeth hon gael ei hadlewyrchu'n briodol mewn cynlluniau datblygu a phenderfyniadau rheoli datblygiad. Ceir rhagdybiaeth hefyd yn erbyn datblygiad nad yw o fewn SoDdGA ond sy'n debygol o ddifrodi SoDdGA.…
>
> …Dim ond o dan amgylchiadau cwbl eithriadol a dim ond pan ystyrir bod datblygiad yn briodol ac na fydd yn debygol o niweidio SoDdGA a bod cytundeb eang a chlir i liniaru a gwella fel rhan o gynllun datblygu y dylai datblygiad gael ei gynnig.

Yn ei llythyr at y Cadeirydd dyddiedig 4 Mawrth, mae'r Gweinidog dros Newid yn yr Hinsawdd yn nodi'n glir bod yn rhaid i benderfyniadau cynllunio a datblygu polisi cynllunio sy'n ymwneud â Gwastadeddau Gwent gadw at yr egwyddorion uchod.

Yn ogystal â Pholisi Cynllunio Cymru, mae polisi 9 o Fframwaith Datblygu Cymru yn cyfeirio'n benodol at Wastadeddau Gwent. Mae'r Fframwaith yn cyd-fynd â'r Polisi Cynllunio ac yn cynnwys fframwaith defnydd tir am gyfnod o 20 mlynedd. Mae iddo statws cynllun datblygu.

Mae Polisi 9 o'r Fframwaith yn nodi ardaloedd adnoddau naturiol cenedlaethol gan gynnwys Gwastadeddau Gwent. Mae'n datgan y "dylai awdurdodau cynllunio gynnwys yr ardaloedd…hyn o fewn strategaethau a pholisïau eu cynlluniau datblygu er mwyn hyrwyddo a diogelu'r swyddogaethau a gyflawnir ganddynt a'r cyfleoedd a gynigir ganddynt."

## Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol

Dywed grŵp ymgyrchu Cyfeillion Gwastadeddau Gwent eu bod yn brwydro yn erbyn nifer o Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol arfaethedig ar y Gwastadeddau.

Caiff rhai datblygiadau penodol eu categoreiddio'n Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a Gweinidogion Cymru sy'n rhoi cydsyniad iddynt yn hytrach na'r awdurdod cynllunio lleol. Mae'r deisebydd yn cyfeirio'n benodol at ffermydd solar. Mae adeiladu, ymestyn neu newid gorsaf cynhyrchu trydan (ac eithrio gorsaf cynhyrchu ynni gwynt ar y tir) y disgwylir iddi fod â chapasiti o 10 – 350MW (neu y disgwylir i'w chapasiti gynyddu cymaint â hynny) yn dod o fewn y gyfundrefn ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Yr Awdurdod Cynllunio Lleol fyddai'n penderfynu ynghylch prosiectau â chapasiti o dan 10MW, ond Llywodraeth y DU fyddai'n penderfynu ynghylch prosiectau â chapasiti dros 350MW a hynny o dan gyfundrefn Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP).. Nid oes trothwy o'r fath ar gyfer prosiectau ynni gwynt ar y tir – Gweinidogion Cymru sy'n penderfynu ar bob prosiect dros 10MW.

Os caiff ei basio, bydd y Bil Seilwaith (Cymru), sydd ar ei hynt drwy'r Senedd ar hyn o bryd, yn cyflwyno cyfundrefn gydsynio unedig newydd, sef Cydsyniad Seilwaith ar gyfer 'Prosiectau Seilwaith Arwyddocaol'. Byddai hyn yn disodli'r gyfudrefn bresennol ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a mathau eraill o gydsyniad.

Byddai'r Bil hefyd yn codi'i trothwy ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ynni (ar wahân i orsafoedd cynhyrchu ynni gwynt ar y tir) i 50-350MW, sy'n golygu mai'r Awdurdod Cynllunio Lleol, unwaith eto, fyddai'n rhoi cydsyniad i rai prosiectau o dan 50MW a fyddai wedi dod o dan y gyfundrefn flaenorol ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Mae ymchwil y Senedd wedi cyhoeddi amrywiaeth o adnoddau'n ymwneud â'r Bil.

# 2. Camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru

Yn ei llythyr at y Cadeirydd dyddiedig 4 Mawrth mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd yn tynnu sylw at y newidiadau yn y polisi cynllunio cenedlaethol mewn perthynas â Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, a amlinellwyd uchod. Dywed y Gweinidog y bydd y newidiadau "yn dylanwadu'n uniongyrchol ar unrhyw ddatblygiad arfaethedig ar y Gwastadeddau yn y dyfodol". Mewn perthynas â pholisi 9 o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (gweler uchod), dywed y Gweinidog ei bod wedi:

> .... cymeradwyo datblygu canllawiau cynllunio pellach yn benodol ar gyfer y Gwastadeddau i helpu i roi'r polisi cenedlaethol hwn ar waith....Mae'r gwaith o ddarparu'r canllawiau hyn bellach wedi dechrau gydag adnoddau penodol o ran staff wedi'u sicrhau ddiwedd 2023 er mwyn eu cyflwyno.

# 3. Camau a gymerwyd gan Senedd Cymru

Ym mis Mehefin 2022 rhoddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd ddatganiad i'r Senedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau sy'n cael eu cymryd i ddiogelu Gwastadeddau Gwent.

Ymgymerodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith â'r gwaith o graffu ar y Bil Seilwaith (Cymru) yng Nghyfnod 1 a chyfnod 2. Yn ystod y gwaith craffu hwn, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru a ddywedodd ei bod yn gweithio gydag Arup i ystyried sut y gellid monitro Gwastadeddau Gwent ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu. Dywedodd y canlynol:

> ...on the Gwent levels, there has been a solar farm and other developments. [We're looking at] has that enhancement that has been put in as part of those schemes actually happened or not?

Cynhelir trafodion Cyfnod 3 yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 19 Mawrth.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1395
Ein cyf/Our ref JJ/00118/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

04 Mawrth 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Ionawr ynglŷn â deiseb P-06-1395 sy'n galw am Atal datblygiadau newydd sylweddol ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Gwastadeddau Gwent.

Fel Llywodraeth, mae mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur wrth wraidd popeth a wnawn. Mae Gwastadeddau Gwent o bwysigrwydd cenedlaethol o ran eu bioamrywiaeth a'u tirwedd, ac wedi eu dynodi gan gyfres o safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig, yn ogystal â bod yn dirwedd o ddiddordeb hanesyddol eithriadol. Mae eu lleoliad, ger Caerdydd a Chasnewydd, ac i Sir Fynwy, hefyd yn eu gwneud yn ased diwylliannol a hamdden gwerthfawr i bobl leol ac ymwelwyr. Mae hefyd yn dirwedd fyw ac yn agored i lawer o newid, a phwysau parhaus. Bydd nifer o newidiadau polisi cynllunio diweddar yr ydym wedi'u cyflwyno yn dylanwadu'n uniongyrchol ar unrhyw ddatblygiad arfaethedig ar y Gwastadeddau yn y dyfodol.

Yn gyntaf, ym mis Hydref 2023 fe wnaethom ddiweddaru pennod 6 o 'Bolisi Cynllunio Cymru' (PPW) i gynnwys amddiffyniad cryfach ar gyfer pob Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), daeth y newidiadau hynny i rym ar unwaith. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi 'Dylid osgoi unrhyw ddatblygiad ar SoDdGA os nad oes ei angen at ddiben rheoli'r safle', ac mae'n mynd ymlaen i ddweud 'Ceir rhagdybiaeth yn erbyn pob math arall o ddatblygiad mewn SoDdGA fel mater o egwyddor a dylai'r rhagdybiaeth hon gael ei hadlewyrchu'n briodol mewn cynlluniau datblygu a phenderfyniadau rheoli datblygiad'. Mae'r PPW diwygiedig hefyd yn egluro'r sefyllfa mewn perthynas ag ardaloedd y tu allan i SoDdGA a allai effeithio ar y SoDdGA hynny, yn yr ystyr ' Ceir rhagdybiaeth hefyd yn erbyn datblygiad nad yw o fewn SoDdGA ond sy'n debygol o ddifrodi SoDdGA'. Rydym hefyd wedi prif ffrydio bioamrywiaeth yn gryf i'r PPW diwygiedig hwn i egluro ein dull o sicrhau budd net ar gyfer bioamrywiaeth trwy bwysleisio pwysigrwydd cydnerthedd ecosystemau a'r angen i osgoi difrod i fioamrywiaeth ac ecosystemau, ac i sicrhau eu bod yn cael eu gwella. Bellach mae'n ofynnol i benderfyniadau cynllunio a datblygiadau polisi cynllunio sy'n ymwneud â Gwastadeddau Gwent gadw at y diweddariadau hyn. Mae'r canllawiau wedi'u

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

diweddaru ar gael yma https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-02/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-12_0.pdf

Yn ail, mae 'Cymru'r Dyfodol - y Cynllun Cenedlaethol 2040' yn cyflwyno Polisi 9 – 'Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn a Seilwaith Gwyrdd'. Mae'r polisi cynllunio cenedlaethol hwn yn tynnu sylw at bwysigrwydd ymgorffori bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau yn y broses gynllunio. Mae Gwastadeddau Gwent wedi'u henwi'n benodol ym Mholisi 9 fel ardal o adnoddau naturiol cenedlaethol - ardaloedd yw’r rhain lle mae angen cydweithio ar draws ffiniau gweinyddol a thu hwnt i ffiniau safleoedd dynodedig i gryfhau rhwydweithiau ecolegol a gwasanaethau ecosystem a sicrhau budd bioamrywiaeth net. Rwyf wedi cymeradwyo datblygu canllawiau cynllunio pellach yn benodol ar gyfer y Gwastadeddau i helpu i roi'r polisi cenedlaethol hwn ar waith. Bydd y canllawiau yn beilot o ddull gweithredu polisi 9 'Cymru'r Dyfodol' gyda'r nod o ymgorffori ystyriaethau bioamrywiaeth yn rhagweithiol i bolisïau cynllunio o fewn y dirwedd ehangach. Mae'r gwaith o ddarparu'r canllawiau hyn bellach wedi dechrau gydag adnoddau penodol o ran staff wedi'u sicrhau ddiwedd 2023 er mwyn eu cyflwyno.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

**BRIEFING NOTE : PETITION : HALT MAJOR DEVELOPMENT ON THE GWENT LEVELS**

Dear Committee Members,

Thank you very much for considering our petition. We would be grateful if you could read this briefing note in conjunction with the FAQ provided.

The Gwent Levels is a beautiful mosaic of habitats that nurture a rich diversity of wildlife throughout the year. It is designated at the UK for its importance to nature conservation, and is a registered historic landscape. The distinctive, familiar but increasingly rare sound of cuckoo calling heralds the fact that spring is in full swing, while the reeds and scrub house the elusive Cetti's Warbler, its wonderful call piercing the air. In summer, wildflowers carpet the meadows, and the air is full of insects as they feed on the nectar-rich flowers. As autumn approaches, it is the best time to see a brilliant flash of colour as kingfishers dart along the waterways. Flocks of teal and shoveler make the ponds their winter home. Throughout the year, the waterways known as reens are frequented by water voles (one of the UK's fastest declining mammals) and otters. All this is threatened by a huge wave of damaging development proposals, including industrial, office and solar development

We wish to make a positive contribution to your consideration of this urgent issue, which represents an existential threat to the Gwent Levels, their wildlife and communities. For this reason, we supply some suggested minor amendments to the Welsh town and country planning system which would go a very long way towards establishing a de facto moratorium on major development on the SSSI.

**Given the gravity of the situation and the wider implications for wildlife across the whole of Wales, we respectfully request that you :-**

**1. Initiate a short scrutiny session into this matter, either under the auspices of the Petitions Committee, or under another Committee of the Senedd, and**

**2. Request that the Minister immediately releases the documents referred to below (the guidance on Chapter 6 of Planning Policy Wales, and the Welsh Government's post-construction monitoring study)**

Background:

SSSIs are the jewels in Wales' nature conservation crown. Only 12% of Wales' land and coastal areas are covered by SSSIs, and we consider it obvious that they should be sacrosanct from major development, as they are UK-nationally designated nature conservation sites.

It is very important to note at the outset that moratoria are not new to our planning system. To our knowledge, there are already at least two de facto moratoria in our system - unconventional gas (fracking) and waste to energy development. These have been in place for several years now, and have been completely successful.

Secondly, the spatial restriction of certain development types is also firmly established in our planning system. TAN 8, although controversial, established a set of strategic search areas (SSAs) on a Wales-wide scale and thereby constituted a spatially-expressed moratorium outside those areas. Welsh Government data shows that, counterintuitively, this resulted in a greater deployment of onshore wind in Wales, to the degree that at one point, Wales' onshore wind generational capacity exceeded that of England, in spite of the latter having approximately seven times the land surface of the former.

**Thus, our proposals do not seek to frustrate the Welsh Government's Net Zero targets, and would in fact be a significant contribution towards them.**

It is quite possible that in addition to the following suggestions, there are further means of achieving the desired aim, which might include for example a study of the way in which the existing moratoria work, and we are open to any proposals from any quarter to this effect.

Our Proposals:

Please note that :-

- The following suggestions are set out in order of preference and ease of quick achievability, given the immediate threat which the Gwent Levels face.
- More than one of the suggestions would need to be implemented in order to fully protect the Gwent levels from damaging development.

1. Welsh Government Guidance on the New Chapter 6 of Planning Policy Wales in Relation to SSSIs:

The new Chapter 6 of Planning Policy Wales is very laudable in its attempts to considerably strengthen the degree of protection given to SSSIs by the planning system. The new policy states that development proposals in an SSSI are not acceptable in principle, would only take place in "wholly exceptional circumstances" and subject to further restrictive criteria.

Guidance on how "wholly exceptional circumstances" should be defined, evidenced and measured by decision-makers, and on the further restrictive criteria is promised by the Welsh Government, but unfortunately, due to understandable pressures of work, this has not materialised. This means that it is open to a very wide range of interpretations, and this vacuum is what developers, lawyers are exploiting in planning cases on the Gwent Levels SSSI.

Clear and unequivocal guidance is urgently needed, in the very near future. This guidance should take the form of a set of clear, stepwise criteria, rigorously and carefully set out, each of which a developer would have to comply with before moving on to the next one and finally on to obtaining planning permission. We can provide suggestions as to what should be in the guidance.

2. The Urgent Release of the Welsh Government's Post-Construction Monitoring Study:

In response to the widespread concerns about the failure of "mitigation" and "compensation" measures to remove damaging impacts resulting from development on the SSSI, the Welsh Government initiated a study looking at actually-constructed developments on or near the SSSI. The final results of this study have not yet been released, but we know that it does confirm our worst fears - that there is a catastrophic and systemic failure of "mitigation" and "compensation".

It is essential that this study is immediately released by the Welsh Government as a matter of urgency, because it is proof, from the Welsh Government itself, that the approach used so far - "mitigation" and "compensation", do not and cannot work on the Gwent Levels SSSI.

3. Future Wales:

Future Wales is our national strategic development plan. It includes a number of policies and provisions, which, if amended, could control renewable energy development in the SSSI. It is very important to note that these amendments will, in any event, need to be introduced to bring Future Wales into conformity with the new Chapter 3 of Planning Policy Wales with regard to SSSI protection, so this proposal is neither new nor controversial.

3.1 Policy 18 of Future Wales 2021:

Criterion 4 of Policy 18 of Future Wales 2021 states that there must be :-

*“**no unacceptable adverse impacts on SSSIs**”* (emphasis added)

This wording is a significant weakening qualifier, and provides a loophole to developers seeking to develop large scale renewable energy developments on the Gwent Levels SSSI. It is weak because it begs the questions of how to measure unacceptability in the context of SSSIs, and to whom does the damaging proposal have to be acceptable?

Simply changing this criterion to ***“..will not be appropriate in SSSIs”*** would remove that loophole, and establish clearly that SSSI development will not take place. The wording we suggest here is drawn directly from TAN 8, which was wholly successful in precluding onshore wind development in SSSIs, so this is a practical and workable step, for which a precedent already exists.

Please note that similar wording was indeed present in the 2020 version of Future Wales, which stated at criterion 3 that there should be :-

***“No adverse impacts on nationally-designated sites”*** (ie SSSIs)

This wording disappeared from the 2021 version of Future Wales, thus this would be merely a matter of reinserting pre-existing policy.

3.2 Future Wales: Preferred Areas for Renewable Energy:

Policy 10 of the 2019 version of Future Wales established the concept of Pre-Assessed Areas (originally called Preferred Areas) (PAs) for solar and onshore wind. Like the old TAN 8 Strategic Search Areas (SSAs) (see above), these areas are zones established throughout Wales where there is a general presumption in favour of wind and solar development applications, and conversely a higher bar for development proposals outside those areas. In the formulation of these Pre-Assessed Areas, SSSIs were “sieved out” for wind and solar and therefore the Gwent Levels were therefore not in any Pre-Assessed Area. However, between the 2019 and 2020 versions, solar was removed from the Pre-Assessed Areas, leaving them applicable to onshore wind only. This resulted in a wholly uncontrolled, “scatter gun” approach to large solar energy development throughout Wales, with projects appearing many kilometres from any Pre-assessed Area, in locations which could not possibly have been in the minds of plan-formulators at the time of the formulation of Future Wales.

Simply reinstating solar as an energy type covered by the Pre-Assessed Areas, and raising the bar for areas outside Pre-Assessed Areas would be a very effective way of controlling solar development on the Gwent Levels SSSI. Again, it is important to learn from the TAN 8 experience that this would have no negative impact on Wales’ total solar resource - indeed, it is quite possible that it would speed up the deployment of solar in Wales, as it would reduce the potential for costly and confrontational public inquiries, and/ or the threat of legal challenges.

4. Local Development Plans:

Local development plans (LDPs) are statutory plans, which every local authority in Wales must produce and adopt. At present, there are several development sites suggested for allocation in various of the three LDPs covering the Gwent Levels, in the form of candidate sites. Some of these have already gained at least partial approval by the local authorities concerned.

A simple way of controlling such development on the Gwent Levels SSSI not involving solar but being captured by LDPs would be for the Welsh Government to commit to exercising its power of veto over any LDP on the Gwent Levels which proposes to allocate a site in the SSSI. Welsh Government and the Minister could make it clear in its regular correspondence with the three local authorities over LDP formulation that it will require, through its legal powers, the removal of proposed allocations in SSSIs.

5. Extremely Large Scale Solar Farm Applications:

We are now starting to be threatened by solar farm proposals which are so big that they are even larger than the "Developments of National Significance" development size set out in Future Wales, which is itself very large indeed. They therefore fall into the category of UK-Nationally Significant Infrastructure Projects (NSIPs). It seems unfair and counterintuitive to us that such enormous projects are not decided upon by our Minister appointed by our First Minister, both of whom are elected representatives in our Senedd. Indeed, it creates an incentive for developers to submit enormous schemes in the hope of obtaining a better hearing in London than in Cardiff, the 1000 acre Llanwern Future Energy project being an example of this.

A simple remedy would be for the threshold for solar energy development size to be raised above that level, in the forthcoming infrastructure Bill, thus ensuring that it is captured by our system in Wales, although we recognise that that would involve discussion with the UK government.

We would be very interested to hear your views on this briefing note. Please do not hesitate to contact us if you require more information, or wish to discuss the content in more detail.

Many thanks,

Mike Webb BSc MSc MRTPI

Planning Manager Gwent Wildlife Trust

# Petition: Halt Major Development on the Gwent Levels

## Briefing Note

## Frequently Asked Questions

**What are the Gwent Levels SSSIs?**

The Gwent Levels SSSIs are an iconic, wetland landscape of national significance. Reclaimed from the sea in Roman times, the Gwent Levels are a criss-crossed network of fertile fields and historic watercourses, known locally as reens.

The Gwent Levels is home to an incredible diversity of wildlife..

**What is a SSSI?**

Sites of Special Scientific Interest (SSSI) are sites statutorily-designated at the UK level for their national, natural heritage because of the rare and important plants and animals that are found on them.

**Why can't the wildlife of the SSSI coexist with development on the Gwent Levels ?**

Studies have shown that attempts by dvelopers to "mitigate" or "compensate" for the damge that their developments have caused have been largely unsuccesful. The Gwent Levels SSSI is a complex and fragile wetland ecosystem, which is wholly reliant on very high water quality for example. It is impossible for large developments not to damage that.

**Some of the developments curently proposed are solar farms. Wouldn't a halt in development on the Gwent Levels affect our Net Zero targets?**

No. Past experience in Wales has shown that deploying development to its most sustainable locations on a Wales-wide scale, and excluding areas where it is not appropriate, is actually the best way of delivering renewable energy quickly . For example, Wales has more installed onshore wind develpments, having followed that approach, than England, in spite of having approximately seven times less land than England.

**Wouldn't it be complicated and difficult to change the planning system to bring about a halt in development on the Gwent Levels?**

No. Most of the suggestions in the briefing note could be achieved relatively quickly and easily, for example speeding up the releasie of certain documents pending with the Welsh Government. (see briefing note for more detail on this)

**Why are you calling for a short inquiry?**

These are matters of national importance, and the gravity of the issue merits a thorough examination. <u>This does not mean however that the easier elements should not be delivered as a matter of urgency, such as the release of pending planning documents.</u>

Eitem 3.2

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# Cynyddu eglurder a hawliau'r rhai sy'n cael Taliadau Uniongyrchol neu Grant Byw'n Annibynnol Cymru er mwyn iddynt fyw'n annibynnol

Y Pwyllgor Deisebau | 18 Mawrth 2024
Petitions Committee | 18 March 2024

**Cyfeirnod:** SR24/7850-10

**Rhif y ddeiseb**: P-06-1404

**Teitl y ddeiseb:** Cynyddu eglurder a hawliau'r rhai sy'n cael Taliadau Uniongyrchol neu Grant Byw'n Annibynnol Cymru er mwyn iddynt fyw'n annibynnol

**Geiriad y ddeiseb:** Mae anghydbwysedd pŵer yn erbyn pobl anabl. Nid yw awdurdodau lleol yn llwyddo i ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar lesiant, rhoi llais a rheolaeth a chydgynhyrchu - egwyddorion craidd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Mae angen tegwch a

- Chymorth eirioli gwell ac mae angen corff cenedlaethol i gynrychioli llais defnyddwyr Taliadau Uniongyrchol
- Proses datrys anghydfod
- Dulliau cyfathrebu gwell
- Paneli cwynion awdurdodau lleol sy'n gwybod am y gyfraith a'r polisïau yng Nghymru
- Ailhyfforddi staff ALl i sicrhau eu bod yn deall ysbryd a bwriad y Ddeddf

I ddyfynnu'r Adroddiad Gwerthuso Terfynol ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 para 6.60: "I'r mwyafrif o ddefnyddwyr

gwasanaeth a gofalwyr a gyfwelwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn, roedd eu profiad yn un o rwystredigaeth. Yn hytrach na'r gobaith a gynigwyd gan y Ddeddf, roedden nhw'n gweld cyfres o rwystrau. Roedd y rhain yn cynnwys agwedd gymharol 'tocynistaidd' at wrando, anghydbwysedd grym rhyngddyn nhw a gweithwyr proffesiynol, yr angen i orfod ceisio galw gweithwyr proffesiynol yn barhaus am gymorth, a diffyg cydnabyddiaeth o'u hawliau yn enwedig o ran materion bod yn sensitif i'r hinsawdd ymhlith pethau eraill. Roedd y rhwystrau hyn yn gweithio yn erbyn y profiad oedd yn cael ei 'gynnig' a'i 'addo' gan egwyddorion sylfaenol y Ddeddf."
Mae pobl anabl yn wynebu loteri cod post o ran y wybodaeth a'r gwasanaethau y gallant eu disgwyl. Mae angen gweithredu nawr.
Siawns bod arian Grant Byw'n Annibynnol Cymru wedi'i glustnodi ac na all unrhyw Gyngor ei adfachu ar fympwy? Beth ddigwyddodd i'r syniad o gydgynhyrchu?
Gweler cynsail cyfreithiol R (BG) V Cyngor Swydd Suffolk 2021 [EWHC] 3368 (Admin)

# 1. Y cefndir

Mae egwyddorion craidd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cynnwys llais a rheolaeth ar gyfer yr unigolyn; ffocws ar eu llesiant a'u canlyniadau personol; a chydgynhyrchu (gan gynnwys yr unigolyn fel partner cyfartal).

Symiau ariannol yw Taliadau Uniongyrchol sydd ar gael gan awdurdodau lleol i unigolion, neu eu cynrychiolydd, i'w galluogi i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth, fel dewis amgen i ofal neu gymorth a drefnir gan yr awdurdod lleol. Gall hyn roi llawer mwy o hyblygrwydd i'r unigolyn a rheolaeth dros eu pecyn gofal a chymorth. Er enghraifft, byddai modd iddynt gyflogi cynorthwyydd personol o'u dewis. Mae rhagor o wybodaeth am y cynnig a chwmpas Taliadau Uniongyrchol ar gael yn Rhan 4 Cod Ymarfer (diwallu anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Yn ôl y Cod, rhaid i awdurdod lleol ddarparu gwybodaeth a chymorth sy'n briodol ac yn hygyrch er mwyn galluogi pobl i benderfynu a ydynt yn dymuno cael Taliadau Uniongyrchol. Os cael Taliadau Uniongyrchol yw'r hyn a ddewisir, rhaid i'r

taliadau hyn fod ar gael ym mhob achos lle maent yn galluogi unigolyn i sicrhau canlyniadau personol.

Nid yw Grant Byw'n Annibynnol Cymru yn bodoli mwyach. Ym mis Tachwedd 2016, cyhoeddwyd y byddai'r Grant yn cau ym mis Mawrth 2019 yn dilyn cyfnod pontio, ac y byddai'r holl dderbynwyr yn cael eu hasesu gan eu hawdurdod lleol ar gyfer gofal a chymorth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Trosglwyddwyd y cyllid llawn o £27 miliwn y flwyddyn i Grant Cynnal Refeniw awdurdodau lleol o 2018 ymlaen.

Mae gwybodaeth am hawliau i eiriolaeth ar gael yn Rhan 10 Cod Ymarfer (Eiriolaeth) mewn perthynas â Rhan 10 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Yn 2023, cyhoeddwyd gwerthusiad annibynnol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Daw'r gwerthusiad i'r casgliad bod ymdeimlad cynyddol o wahaniaethau mewn ymarfer a chanlyniadau oddi wrth weledigaeth ac egwyddorion gwreiddiol y Ddeddf. Canfu yn gyffredinol y teimlai pobl nad oedd eu profiadau o dan y Ddeddf wedi cyrraedd eu disgwyliadau o'r hyn yr oeddent yn gobeithio y byddai'n ei wneud.

Mae'r adroddiad terfynol yn gwneud nifer o argymhellion, er enghraifft, dywed y "dylid rhoi blaenoriaeth i wneud llais a rheolaeth yn 'realiti' i bawb, a gellid mynd i'r afael â hyn drwy fuddsoddi mewn eiriolaeth, ochr yn ochr â gweithio gyda sefydliadau a angorir yn y gymuned a buddsoddi ynddyn nhw."

Yn 2022 cyhoeddodd Archwilio Cymru adroddiad ar ddarpariaeth Taliadau Uniongyrchol awdurdodau lleol yng Nghymru. Canfu fod y systemau i reoli a chefnogi pobl i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol yn amrywio'n fawr ledled Cymru, gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn derbyn safonau gwasanaeth gwahanol. Daw'r adroddiad i'r casgliad nad yw pobl yng Nghymru yn cael eu cefnogi'n gyson i dderbyn Taliadau Uniongyrchol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth newydd i ganiatáu defnyddio Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG. Yn 2022, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth sylfaenol, gan gynnwys cyflwyno Taliadau Uniongyrchol ar gyfer gofal iechyd parhaus y GIG.

## 2. Camau gweithredu gan Senedd Cymru

Ar 25 Mai 2023, cynhaliodd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus sesiwn dystiolaeth gydag arbenigwyr academaidd i drafod y gwerthusiad o'r Ddeddf, y camau nesaf ac unrhyw feysydd sydd angen sylw pellach.

Yn dilyn y cyfarfod, ysgrifennodd y Pwyllgorau ar y cyd at y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i dynnu sylw at faterion a godwyd yn ystod y sesiwn dystiolaeth.

Yn ystod y gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft yng nghyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 17 Ionawr 2024, dywedodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol:

> We're addressing direct payments for continuing healthcare, for example, particularly for individuals who are transitioning from social care to a healthcare-funded package to be able to access direct payments. That is a big issue for disabled people and that is one of the things that we're in the process of looking at now, and we hope to bring in legislation about that. So, that will be a great help, I think, to disabled people in a social care Bill.

## 3. Ymateb Llywodraeth Cymru

Dywed Llywodraeth Cymru fod trosglwyddo cyllid ar gyfer cyllid Grant Byw'n Annibynnol Cymru yn 2019 i'r Grant Cynnal Refeniw yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol ddarparu'r gwasanaethau hynny ac yn alinio gofynion ynghylch ymgysylltu a chydgynhyrchu ag egwyddorion y Ddeddf, cam a groesawyd gan ymgyrchwyr #saveWILG.

Dywed y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod yn hanfodol bod mwy o bobl yn cael gwybod am fanteision Taliadau Uniongyrchol, a bod mynediad a darpariaeth yn gyson ledled Cymru. Dywed fod Llywodraeth Cymru wedi cysylltu ag Archwilydd Cyffredinol Cymru ac awdurdodau lleol i gynnwys argymhellion adroddiad Archwilio Cymru mewn Canllawiau Statudol.

Mae'r Dirprwy Weinidog yn sôn am Fil Gofal Cymdeithasol sydd ar ddod gan Lywodraeth Cymru a fydd yn cynnwys mesur i wella'r rhyngwyneb rhwng Gofal Iechyd Parhaus a Thaliadau Uniongyrchol. Dywed y bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cyflwyno canllawiau newydd i awdurdodau lleol a fydd yn ei gwneud yn ofynnol

iddynt hunanasesu eu perfformiad a'u cyflawniad yn erbyn wyth safon ansawdd. Mae hyn yn cynnwys dangos, gyda thystiolaeth, sut y maent yn hybu llais a rheolaeth unigolion sydd angen gofal a chymorth ac yn eu helpu i fyw mor annibynnol â phosibl. Bydd angen i awdurdodau lleol ddangos sut y caiff safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr eu hadlewyrchu yn asesiad yr awdurdod o'i berfformiad. Daw'r Dirprwy Weinidog i'r casgliad ei bod yn disgwyl gweld cynnydd clir ar yr ymrwymiadau a amlinellwyd eleni.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA/JMSS/00058/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

05 Mawrth 2024

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr ynghylch deiseb P-06-1404 a'r galw am fwy o eglurder a hawliau i bobl ar daliadau uniongyrchol neu Grant Byw'n Annibynnol Cymru (WILG) i fyw'n annibynnol. Rwyf yn croesawu'r cyfle i nodi safbwyntiau Llywodraeth Cymru wrth ichi ystyried eich ymateb ac rwyf yn anfon copi o'm hymateb i dîm clercio'r Pwyllgor Deisebau yn unol â'ch cais.

Rwyf yn cefnogi hawl pobl anabl i fyw bywydau cyflawn ac i reoli sut y cânt eu cefnogi lle bynnag y bo modd. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Codau Ymarfer cysylltiedig yn nodi dull gweithredu clir a chyson y mae rhaid i awdurdodau lleol ei ddilyn i gynnwys unigolion yn ystyrlon wrth gynllunio a darparu gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion.

Daeth WILG i ben fel cyllid grant yn 2018-19. Trosglwyddwyd yr holl gyllid (£27 miliwn) i'r Grant Cynnal Refeniw, gan ganiatáu i awdurdodau lleol barhau i ddarparu cymorth i dderbynwyr, naill ai drwy gynnal taliadau i unigolion yn 2018-19 cyn iddynt gael eu trosglwyddo i gymorth o dan ddarpariaeth gofal cymdeithasol awdurdod, neu drwy ddarparu cymorth o dan drefniadau lle mae cymorth wedi'i drosglwyddo. O 2019-20 ymlaen, roedd yr holl gymorth i dderbynwyr i'w ddarparu drwy ddarpariaeth gofal cymdeithasol awdurdod lleol.

Mae Taliadau Uniongyrchol yn helpu llawer o bobl anabl i fyw mor annibynnol â phosibl. Mae'n hanfodol bod mwy o bobl yn dod yn ymwybodol o'u manteision a bod mynediad a darpariaeth yn gyson ledled Cymru. Rydym wedi cysylltu ag Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Awdurdodau Lleol i ymgorffori'r argymhellion yn adroddiad *Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion* 2022 mewn Canllawiau Statudol. Rydym hefyd yn defnyddio canfyddiadau'r adroddiad a thystiolaeth ehangach i ddeall y gweithlu

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Bydd gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cynorthwywyr personol yn well ac i ddatblygu set gydgysylltiedig o gamau gweithredu i sicrhau hawliau ac i wella cysondeb profiad a chymorth i dderbynwyr taliadau uniongyrchol a chynorthwywyr personol.

Mae ein Bil Gofal Cymdeithasol arfaethedig yn cynnwys mesur a fydd yn gwella'r rhyngwyneb rhwng Gofal Iechyd Parhaus a Thaliadau Uniongyrchol. Bydd yn caniatáu i bobl reoli eu bywyd eu hunain a chysoni'r disgwyliadau â dyletswyddau sydd gan yr awdurdodau lleol ar gyfer gofal cymdeithasol.


Yn ehangach, rydym yn bwrw ymlaen â'r rhaglen waith a nodwyd gan ein Tasglu Hawliau Anabledd. Mae'n dod â phobl sydd â phrofiad bywyd, Arweinwyr Polisi Llywodraeth Cymru a sefydliadau cynrychioliadol ynghyd. Mae gwaith y Tasglu yn seiliedig ar ddealltwriaeth gyffredin o'r Model Cymdeithasol o Anabledd, hawliau dynol a chydgynhyrchu.

Byddwn hefyd yn cyflwyno canllawiau newydd i'r Awdurdodau Lleol a fydd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt hunanasesu eu perfformiad a'u darpariaeth yn erbyn wyth safon ansawdd. Mae hyn yn cynnwys dangos, gyda thystiolaeth, sut y maent yn hyrwyddo llais a rheolaeth unigolion sydd angen gofal a chymorth ac yn eu helpu i fyw mor annibynnol â phosibl. Bydd angen iddynt ddangos sut y mae barn defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cael ei hadlewyrchu yn asesiad yr awdurdod o'i berfformiad.

Mae fy swyddogion yn gweithio gydag unigolion ar draws y sector i sicrhau bod yr ymrwymiadau hyn yn cael eu cyflawni mewn modd amserol. Rwy'n disgwyl gweld cynnydd clir yn cael ei wneud arnynt yn ystod y flwyddyn hon.

Diolch ichi unwaith eto am ysgrifennu ataf ynghylch y mater hwn.

Yn gywir



**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

cc: deisebau@senedd.cymru

**P-06-1404 Increase clarity and rights for people on direct payments or WILG to live independently - Correspondence from the Petitioner to the Committee, 11.03.24**

Update for Senedd Petition Committee

I am only able to speak about my own experiences with Wrexham CBC. This is a notoriously difficult Local Authority (LA) to work with, but my fear is that if Wrexham Council can treat a well Known disabled activist, like myself, like this then I dread to think what difficulties other disabled people are suffering at the hands of other LA's across Wales. Action is required to shift the balance in favour of disabled people who are often powerless in the face of LA's

1. **#SaveWILG (Welsh Independent Living Grant) campaign:** When I was fighting the #SaveWILG campaign in 2016-19 I feared the transfer of rights, power and resources to LA's, who seem to be unaccountable for what they do and how they treat disabled people. My worst fears have come true.

2. **Need for an Advocate for Disabled People:** Please recognise it is crucial that disabled people need someone to speak/advocate for or on their behalf against difficult LA Social Services Departments. This was always the case with the Independent Living Fund that worked well until it was closed by the UK Government.

3. **Juxtaposition:** The LA is very quick to chase me by email for funds & details of my finances, but they are very slow and poor when it comes to engaging with me about my Care and Support Plan.

4. **Failure to "Co-produce":** Co-production is a one of 5 key principles of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (SSWBA 14). There is a fundamental failure by the LA Social Services Dept to "co-produce" the Care and Support Plan with Nathan.

5. **Failure to encourage Voice and control:** This is a fundamental principle of the SSWBA 14, but the LA seeks to minimise it in respect of Nathan. This is an essential building block of the SSWBA 14. For example, Nathan has no control over the way his Care and Support Plan is drafted.

6. **Lack of Support for Nathan's Well-being:** This is the third key principle of SSWBA 14 which again Wrexham LA are failing to prioritise in respect of Nathan. Yet Nathan has just 3 well-being outcomes in the Care and Support Plan drafted by the LA social worker, whereas Nathan's Plan has 14 outcomes planned for the year 2023-24.

7. **<u>Local Authority Failure to Comply with their Own Paperwork:</u>** The LA failed to apply their own guidance in the use and drafting of Nathan's Care and Support Plan. For example, the "Baseline self-assessment measure and the failure to draft any aspect of the Plan in Nathan's own words. Finally, there is no record of Nathan's disagreement with the Care and Support Plan as drafted by the LA social worker.

8. **<u>Failure to Engage and Apply SSWBA 14:</u>** It is Nathan's perception that many LA's are not properly engaging with both the SSWBA 14 specifically and disabled people generally. Through this petition we are seeking to spotlight shortcomings or deficiencies in this process, which currently disadvantage disabled people especially if they are isolated. Nathan wants to put that right and feels that greater training is needed for Social Care staff working for LA's.

9. **<u>Final Evaluation Report of the SSWBA 14:</u>** The Final Evaluation Report of the SSWBA 14 published in 2023 reinforces what we know, understand and suspect. It isn't just Nathan facing these difficulties but a lot of disabled people in various LA's. Nathan feels that he is speaking up for many disabled people.

10. **<u>Independent Assessors from Outside Wales:</u>** Nathan's Complaint submitted in October 2023 was passed by the LA to an "independent" assessor who lived and worked outside of Wales. We suspect that he did not appreciate and understand the different Welsh legislation namely SSWBA 14. This legislation promotes co-production, voice and control and well-being. This is fundamentally different from the English legislation.

11. **<u>Need for a Bespoke Welsh Complaints Process:</u>** We need a bespoke complaints process which would be fair to all disabled people across Wales and which would give them hope when dealing with robust LA's and they find the cards are stacked against them.

12. **<u>Veto:</u>** The LA seems to have a veto over Nathan's Direct Payments, which largely undermines the basic principle of independent living. Further the LA don't seek to facilitate Nathan's wishes, they seek to undermine and frustrate every independent action he takes.

13. **Clawback:** Nathan's virtue of saving money has turned into a vice, as the LA have "clawed back" £33,000 of Direct Payment funds between October-December 2023.

14. **No Pension:** Bear in mind Nathan doesn't have a pension. He survives on a combination of benefits and Direct Payments – which includes legacy WILG money.

15. **Removal of "safety net":** The Local Authority has taken Nathan's accumulated "safety net" of funds which enabled him to employ a team of Personal Assistants (x 9). The uncertainty has made it difficult for Nathan to deal with staff pay, pensions and employer insurance issues.

16. **Query:** Can you accumulate Direct Payments for something you want/need? (Big ticket items such as bike exercise equipment). The guidance suggests you can, otherwise the implication is that a DP recipient must always exist on the breadline. But what if the LA disagrees?

17. **GoFundMe:** Nathan was forced to fund a "short break" with a charity crowdfunder request to the public during this cost of living crisis. Is this how disabled people should be treated in the 21st century?

18. **Unique Circumstances:** Nathan's situation and circumstances are unique; the label "disabled" doesn't make Nathan the same as every other disabled person. Nathan emphases that all disabled people are different, not the same and so deserve bespoke and personalised care and support.

19. **Nathan's Appeal Ignored:** The LA have appeared to completely ignore Nathan's appeal against the "clawback" of £33,000 of his Direct Payments money. The appeal was submitted in September 2023. The LA did not respond in detail even if they disagreed with Nathan, failing to give full reasons for why they were going to "clawback" £33,000 of his Direct Payment money.

20. **Subject Access Request (SAR):** Nathan submitted a SAR in October 2023 to the Wrexham Social Services Dept to see what information was being held about him. This revealed a few points of frustration, as follows:

21. **Subject Access Request (SAR):** The spelling of Friedreich's Ataxia in the SAR's is incorrect on numerous occasions, not just a typo. The Social worker / staff show either lack of knowledge or respect.

22. **<u>Subject Access Request (SAR):</u>** There is confusion revealed by SAR paperwork over what DP's can be spent upon. See Bundle 9 Page 17 Note 21 of SAR paperwork – reference to a "T bar" to aid Nathan's sleeping being an anomaly as to who should pay for it; either health department or social services department?).

23. **<u>Subject Access Request (SAR):</u>** The Social workers have just cut and pasted (or auto populated) from old Care and Support Plans without thinking about the evolving needs Nathan has now/today?

24. **<u>Increased cost of the "Short Break" Due to Council Opposition:</u>** If Nathan had been allowed to pay for the "short break" in July 2023 it would have cost £3000. However due to LA opposition; when Nathan finally booked it in October 2023 the price had increased by over £2000. Nathan also lost an original deposit for the trip of £600.

25. **<u>Clarification required in Respect of the status of WILG?</u>** There needs to be clarification in respect of the "legacy" WILG money, the way it may be spent and the entitlement of LA's to clawback such funds. Question: How much of the £27 million WILG money is left? Is it an annual figure or a declining lump sum?

26. **<u>Fighting for Nathan's Human Rights:</u>** Given Nathan's likely shorter lifespan, it is extremely distressing that he is engaged in a constant fight with the LA to assert his human rights. It seems like Nathan must fight the LA for even the most menial or derisory items to make his life and that of his PA's more manageable and comfortable as they work for Nathan. Nathan has to fight to live on a level playing field to exist on the same terms as the rest of society. Nathan has had to be prescribed beta blockers by his GP to help deal with the stress.

**27.** **<u>Disabled People are an Easy Target:</u>** It is our perception that Nathan and many other disabled people across Wales are perceived by LA's as an easy target, who will not be able to fight back and defend themselves. As a result, they suffer a lack of social care, a lack of provision, and a lack of resources, or a cynical "clawback" as in Nathan's case. Would society allow any other segment of the population to be treated or abused in such a way?

28. **<u>Social Care Ombudsman:</u>** Nathan is minded to present a complaint about his treatment to the Social Care Ombudsman in due course. This is a never-ending process of struggle, which threatens to overwhelm Nathan and his voluntary, informal care co-operative team.

Nathan Lee Davies
11-3-24

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

Eitem 3.3

# P-06-1406: Cosbau ariannol i Awdurdodau Addysg Lleol nad ydynt yn cydymffurfio â'r amserlenni ar gyfer ADY

Y Pwyllgor Deisebau | 18 Mawrth 2024
Petitions Committee | 18 March 2024

**Cyfeirnod:** SR24/8142-2

**Rhif y Ddeiseb:** P-06-1406

**Teitl y ddeiseb:** Cosbau ariannol i Awdurdodau Addysg Lleol nad ydynt yn cydymffurfio â'r amserlenni ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

**Testun y ddeiseb:** Mae Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yng Nghymru wedi nodi methiannau sylweddol gan awdurdodau addysg lleol o ran cydymffurfio â'r amserlenni ar gyfer

1) Nodi ADY

2) Cwblhau Cynlluniau Datblygu Unigol

3) Cydymffurfio â gorchmynion tribiwnlys

Credwn y dylai awdurdodau addysg lleol fod yn atebol am y methiannau hyn. Credwn y dylai fod cosbau ariannol i'r awdurdodau addysg lleol am y methiannau hyn.

## 1. Cyflwyniad

Cafodd y Pwyllgor bapur briffio ar 4 Mawrth ar gyfer ei drafodaeth ar ddeiseb P-06-1392 Diwygio'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).. Roedd y papur briffio hwnnw'n cynnwys gwybodaeth gefndir am y diwygiadau ADY a'r materion sydd wedi codi yn ystod gwaith craffu'r Senedd. Yn hytrach nag ailadrodd yr holl wybodaeth honno yma, efallai yr hoffai Aelodau gyfeirio at y papur briffio

blaenorol a ddarparwyd yn gynharach y mis hwn i gael gwybodaeth gyffredinol am ddiwygio ADY.

Mae llythyr y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg ynglŷn â'r ddeiseb hon yn cydnabod bod diffyg cysondeb yn y modd y caiff y Ddeddf a'r Cod ADY eu rhoi ar waith ond **"Nid yw cosbau ariannol [ar gyfer awdurdodau lleol] yn cael eu hystyried,"** meddai.

# 2. Amserlenni gofynnol ar gyfer cyhoeddi penderfyniadau am Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynlluniau Datblygu Unigol

O ran gwybodaeth sy'n ymwneud yn benodol â'r ddeiseb hon, mae adran 4(6) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cod ADY (a gyhoeddwyd yn 2021) bennu amserlenni ar gyfer ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol, a rhaid i'w penderfyniadau ynghylch a oes gan ddysgwr ADY gael eu gwneud o fewn yr amserlenni hyn ac, os yw'n berthnasol, rhaid iddynt baratoi a chyhoeddi Cynllun Datblygu Unigol (CDU) o fewn yr amserlenni hefyd,

## 2.1. Amserlenni ar gyfer ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach

Mae'r Cod ADY yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion naill ai benderfynu nad oes gan ddysgwyr ADY neu roi CDU iddynt cyn pen **35 diwrnod ysgol** (para 12.12 a 12.21 o'r Cod ADY). Mae amserlen ofynnol debyg ar gyfer **Sefydliadau Addysg Bellach**, sef **35 diwrnod yn ystod y tymor** (para 16.16 a 16.26).

Nid oes angen i ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach gydymffurfio â'r amserlen hon os yw'n anymarferol iddynt wneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth.

## 2.2. Amserlenni ar gyfer awdurdodau lleol

Os daw i sylw awdurdod lleol fod gan blentyn/dysgwr ADY o bosibl, er enghraifft os yw'r plentyn yn iau na'r oedran ysgol gorfodol ac nad yw yn yr ysgol, neu os yw ysgol yn cyfeirio'r achos at yr awdurdod lleol oherwydd ei natur gymhleth, **mae gan yr awdurdod lleol 12 wythnos** i benderfynu nad oes gan y dysgwr ADY neu baratoi CDU (para 11.17, 11.24, 12.63 a 12.75 o'r Cod ADY).

**7 wythnos** yw'r cyfnod hwn **os yw'r awdurdod lleol yn ailystyried penderfyniad ysgol** ynghylch ADY, er enghraifft os yw rhiant wedi gofyn i'r awdurdod wneud hynny.

Gall yr awdurdod lleol hefyd gyfarwyddo ysgol i baratoi a chynnal CDU ar gyfer dysgwr, a rhaid i hyn oll ddigwydd cyn pen 12 wythnos (para 12.96).

### 2.3. Eithriad i amserlenni

Nid oes angen i ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach gydymffurfio â'r amserlen hon os yw'n anymarferol iddynt wneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth. Yn ei lythyr, mae'r Gweinidog yn dweud y dylai awdurdod lleol ysgrifennu at y teulu, cyn gynted â phosibl, yn egluro'r sefyllfa os yw'n penderfynu bod yr eithriad i'r amserlen yn berthnasol (yn unol â pharagraff 1.51 o'r Cod ADY).

Mae paragraffau 1.41 i 1.51 ym mhennod ragarweiniol 1 y Cod ADY yn rhoi rhywfaint o arweiniad ar sut i ddehongli'r amserlenni. Yn benodol, mae paragraffau 1.48 i 1.51 yn rhoi arweiniad ar sut y dylid cymhwyso'r eithriad i'r amserlenni.

## 3. Apelio i'r Tribiwnlys

Mae Tribiwnlys Addysg Cymru (y 'Tribiwnlys') yn gwrando ar achosion apêl gan ddysgwyr a theuluoedd yn erbyn penderfyniadau a wneir o dan y system ADY. Mae'r Tribiwnlys hefyd yn gweithredu o dan ei enw blaenorol, sef y Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC), mewn perthynas ag apelio o dan y system AAA, na fydd yn dirwyn i ben yn llwyr tan fis Awst 2025.

O ran y system ADY newydd, mae Tribiwnlys Addysg Cymru **yn gwrando ar achosion apêl yn erbyn penderfyniadau gan awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach** (nid ysgolion gan y byddai teuluoedd yn gofyn i awdurdodau lleol edrych eto ar benderfyniadau ysgolion ac yna'n apelio yn erbyn yr hyn y bydd, neu na fydd, yr awdurdod lleol yn ei wneud).

Gall y Tribiwnlys wrthod yr apêl, neu ei gadarnhau drwy orchymyn bod gan ddysgwr ADY. Gall hefyd orchymyn bod CDU yn cael ei baratoi neu fod CDU yn cael ei adolygu, neu orchymyn bod penderfyniad yn cael ei ailystyried mewn perthynas â sylwadau'r Tribiwnlys. Gall y Tribiwnlys **hefyd wneud argymhellion i fyrddau iechyd** sy'n gorfod ymateb gan esbonio a fyddant yn eu dilyn ac os na fyddant, rhaid iddynt ddweud pam.

Mae gwybodaeth am y broses apêl ar gael ar wefan y Tribiwnlys, gan gynnwys canllawiau penodol.

## 3.1. Amserlenni ar gyfer cydymffurfio â gorchmynion y Tribiwnlys

**Mae Gorchmynion Tribiwnlys yn gyfreithiol rwymol, er nad yw'r Tribiwnlys ei hun yn eu gorfodi.** Rhaid i deuluoedd fynd drwy'r llysoedd neu gwyno i Lywodraeth Cymru.

**Fel arfer, y** terfynau amser ar gyfer cydymffurfio â Gorchymyn Tribiwnlys yw 7 wythnos i awdurdodau lleol, a 35 diwrnod yn ystod y tymor i sefydliadau addysg bellach (ond rhaid cydymffurfio â rhai gorchmynion ar unwaith). Mae canllawiau'r Tribiwnlys ar Orchmynion Apêl yn esbonio'r sefyllfa ymhellach.

**Mae gan fyrddau iechyd chwe wythnos** i ymateb i argymhellion y Tribiwnlys.

# 4. Gwaith craffu'r Senedd

Fel y nodwyd yn ein papur briffio blaenorol, mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd yn craffu ar y broses o weithredu'r diwygiadau ADY (ynghyd â diwygiadau mawr eraill yn ymwneud â'r cwricwlwm) drwy gydol y Senedd hon.

Yn ystod trafodaeth y Pwyllgor ar 4 Mawrth ar y ddeiseb yn galw am ddiwygio'r Cod ADY, cyfeiriwyd at ddeisebau eraill yn ymwneud ag ADY sydd wedi'u hystyried. Cytunodd y Pwyllgor i ofyn am ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y ddeiseb mewn perthynas â'r Cod ADY, ac mae'n bosibl y gellid cyfeirio hefyd at y deisebau eraill yn ymwneud ag ADY.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich Cyf/Your Ref: P-06-1406
Ein cyf/Our ref: JMEWL/00324/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

28 Chwefror 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Chwefror ynghylch deiseb P-06-1406: Cosbau ariannol i awdurdodau addysg lleol nad ydynt yn cydymffurfio â'r amserlenni ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Roedd mis Medi y llynedd yn nodi dechrau'r drydedd flwyddyn o weithredu'r Ddeddf ADY. Rydym yn cydnabod bod hwn yn newid systemig sy'n gofyn am amser ac ymrwymiad, ac mae'n hanfodol i'n dysgwyr ag ADY ein bod yn gweithredu'r ddeddfwriaeth hon mewn ffordd effeithiol. Ers cyflwyno'r ddeddfwriaeth yn 2018, mae'r dirwedd addysg wedi newid yn sylweddol, mewn cyfnod o redeg system ddeuol (AAA ac ADY), ac mewn pandemig sydd wedi effeithio ar bob rhan o gymdeithas ac sydd wedi cyffwrdd â bron pob agwedd ar y byd addysg.

Mae'r Cod ADY yn gosod amserlenni clir i awdurdodau lleol ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch ADY a pharatoi Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau). Efallai bod sefyllfaoedd pan fo'n anymarferol cymryd y camau angenrheidiol cyn diwedd y cyfnod penodedig oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth yr awdurdod lleol. Yn yr achosion hyn, ni fydd yr amserlenni yn berthnasol, fodd bynnag, rhaid i'r awdurdod lleol barhau i gwblhau'r camau gweithredu yn fuan.

Pan fo'r awdurdod lleol wedi penderfynu bod yr eithriad i'r amserlen yn berthnasol, dylai egluro hyn yn ysgrifenedig i'r teulu cyn gynted â phosibl. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi comisiynu a dadansoddi ystod o dystiolaeth, adborth a data gwerthfawr o bob rhan o'r system, ac mae'n amlwg bod y sector yn unedig o ran brwdfrydedd ac ymrwymiad i gydweithio.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ym mis Medi 2023, cafwyd adolygiad thematig gan Estyn ar gynnydd ysgolion ac awdurdodau lleol wrth gefnogi disgyblion ag ADY. Daeth i'r amlwg bod awdurdodau lleol yn bwriadu cyflawni eu cynlluniau a gorffen rhoi'r diwygiadau ADY ar waith (trosglwyddo o AAA i ADY) o fewn yr amserlenni a ddarparwyd. Nodwyd hefyd argymhellion i'w gweithredu gan awdurdodau lleol, yn benodol er mwyn parhau i sicrhau ansawdd ac adolygu ymarfer a darpariaeth ddysgu ychwanegol. Bydd hyn yn sicrhau bod cyllid a dysgu proffesiynol yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r system yn effeithiol o ran: arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, cynlluniau datblygu unigol, gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, adnoddau a darpariaeth.

Ym mis Tachwedd 2023, cafwyd yr wybodaeth ddiweddaraf yn fy Natganiad Llafar ynghylch rhoi diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol ar waith.

Ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddwyd Gwerthusiad o'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol: adroddiad cwmpasu. Bydd y gwerthusiad yn asesu gweithrediad y system ADY ac i ba raddau y caiff amcanion polisi eu gwireddu. Mae'r adroddiad cwmpasu yn cyflwyno canfyddiadau cam cyntaf y gwerthusiad pedair blynedd o'r system ADY. Mae'n cynnwys y materion a'r themâu sy'n dod i'r amlwg a ddylai fod yn destun ymchwil bellach fel rhan o'r gwerthusiad hwn. Hefyd mae'n rhoi mewnwelediad a thystiolaeth allweddol i Lywodraeth Cymru i'n galluogi i fonitro a nodi effeithiau'r system ADY newydd ar ddysgwyr ag ADY/AAA, ynghyd ag effaith diwygio'r cwricwlwm.

Wrth i'r gwaith gweithredu fynd rhagddo, mae'n amlwg bod diffyg cysondeb wrth gymhwyso'r Ddeddf a'r Cod ADY. Mae angen gwella rhai meysydd yn y system ac rydym yn cydweithio â'r sector addysg i weithredu.

Ein blaenoriaeth yw cefnogi a herio awdurdodau lleol a'u partneriaid i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Byddwn yn cryfhau ein seilwaith monitro a chyflawni trwy recriwtio arweinwyr Gweithredu Cenedlaethol a fydd yn gweithio'n uniongyrchol gydag awdurdodau lleol, gan ddefnyddio gwybodaeth o ystod o ffynonellau, gan gynnwys adborth gan deuluoedd a phartneriaid, arolygon, data a hunanasesu a gwerthusiadau ardal leol. Yn ogystal, mae'r adolygiad o rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru a threfniadau gwella ysgolion yn ceisio cryfhau trefniadau gwella ysgolion ar lefel leol, uwch-leol a chenedlaethol. Nid yw cosbau ariannol yn cael eu hystyried.

Byddwn yn parhau i fonitro gweithrediad ac yn cydweithio â chyrff statudol, ysgolion a lleoliadau i wireddu ein huchelgeisiau o ran diwygio ADY.

Yn gywir



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

**P-06-1406 Financial penalties for Local Education Authorities who do no comply with timeframes for ALN - Correspondence from the Petitioner to the Committee, 11.03.24**

Dear Mr Seargent,

Thank you for the review of our petition regarding the lack of penalties for LA's missing out on the legal timeframes for ALN consideration.

I have read Mr Miles' response. There is no need for a lengthy reply to this situation. The issue is clear and simple. LA's allow themselves ' extensions ' on the time scales of completing the process. There is no penalty to them for not meeting these legal time frames and this leaves families with no support and no ability to further appeal to Education Tribunal Wales in a timely manner should they need to do so. There was a similar issue with the SEN process and therefore this is not an issue with the implementation phase of a new system, but a lack of care for the children and families going through the process. It makes no difference to the LA's whether they meet the deadline or not as 'nothing' happens to them. For the families and children, however, this causes further delay in support. In my own case it was 8 months from ALN determination to decision for my daughter.

We request that there are penalties to the LA's for not meeting the timeframes.

Regards

Victoria Lightbown on behalf of the members of ALN Reform Wales.

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# P-06-1408 Dylid gwneud y mynediad i Ardd Gudd A4042 Goetre Fawr yn ddiogel ar gyfer cerddwyr a cherbydau

Y Pwyllgor Deisebau | 18 Mawrth 2024
Petitions Committee | 18 March 2024

**Cyfeirnod:** SR24/8173-1

Rhif y ddeiseb: P-06-1408 Dylid gwneud y mynediad i Ardd Gudd A4042 Goetre Fawr yn ddiogel ar gyfer cerddwyr a cherbydau

Teitl y ddeiseb: Dylid gwneud y mynediad i Ardd Gudd A4042 Goetre Fawr yn ddiogel ar gyfer cerddwyr a cherbydau

Geiriad y ddeiseb: Mae hon yn ganolfan arddio boblogaidd gydag ystafelloedd te prysur. Mae mynediad i'r ganolfan oddi ar yr A4042 (50 milltir yr awr, yma) wedi'i farcio'n wael gyda dwy lôn tua'r gogledd yn lleihau i un. Mae gwrthdrawiadau yn digwydd yn aml.

Mae gyrwyr sy'n gadael y ganolfan arddio yn rhydd i droi i'r ddau gyfeiriad. Mae ceir yn aml yn dod allan yn rhy araf neu'n arafu, gyda thraffig yn effeithio arnynt; rhywbeth arall sy'n peri damweiniau.

Nid oes mynediad yma i bobl gerdded o bentref cyfagos Little Mill. Nid yw'r gyffordd yn cefnogi teithio llesol.

Mae gwrthdrawiadau'n digwydd yn aml, ac achosion sydd bron â bod yn ddamweiniau'n digwydd yn fwyfwy aml. Mae peth wmbreth o wrthdrawiadau yma.

Ddoe (sef 9 Awst), gwrthdarodd dau gar tua 5:25pm gyda'r ffordd ar gau i'r ddau gyfeiriad, a dargyfeiriadau drwy Little Mill. Cyn hynny, ar 4 Mehefin 2023, bu dau gar mewn gwrthdrawiad tua c. 7:00 am yn ystod oriau brig y bore gan achosi oedi i'r ddau gyfeiriad. Yn ffodus ddigon, doedd dim anafiadau difrifol ar y naill achlysur na'r llall, dim ond teithwyr a gyrwyr wedi'u trawmateiddio.

Mae hyn yn rhoi pwysau diangen ar ein gwasanaethau brys, sy'n profi digon o bwysau fel ag y mae.

Rwy'n teimlo'n siŵr y bydd ystadegau ffyrdd yn cadarnhau cymaint o fan gwan yw'r safle hwn.

Mae gwrthdrawiadau oriau brys yn achosi trallod i bawb a llygredd aer ychwanegol.

# 1. Y cefndir

Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod priffyrdd ar gyfer rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd Cymru. Asiant Cefnffyrdd De Cymru sy'n gyfrifol am weithredu a chynnal a chadw'r ffordd o ddydd i ddydd.

Mae'r ddeiseb yn cyfeirio at wrthdrawiadau sy'n digwydd yn aml, ac "achosion sydd bron â bod yn ddamweiniau" ar yr A4042 yng nghanolfan arddio yr Ardd Gudd – sydd wedi'i lleoli rhwng Pont-y-pŵl a'r Fenni.

Mae dadansoddiad Ymchwil y Senedd o ddata lefel damweiniau ffordd Llywodraeth Cymru yn dangos y bu pedwar gwrthdrawiad rhwng 2012 a 2022 (y flwyddyn ddiweddaraf y mae data ar gael ar ei chyfer) a arweiniodd at chwech o anafiadau ar hyd y darn o'r ffordd y tu allan i ganolfan arddio yr Ardd Gudd – dau yn anafiadau "difrifol" a phedwar yn "fân" anafiadau. Nid oedd yr un yn angheuol.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y data a ddefnyddir wrth adrodd yn swyddogol ar ddamweiniau ffyrdd ym Mhrydain Fawr yn dod o ffurflenni ystadegol STATS19 yr heddlu. Mae'r rhain yn adrodd am ddamweiniau traffig ffyrdd a arweiniodd at anaf personol ac a adroddwyd i'r heddlu o fewn 30 diwrnod i'r ddamwain. Nid yw data ar wrthdrawiadau ehangach yn cael eu casglu na'u hadrodd fel mater o drefn.

# 2. Polisi Llywodraeth Cymru a chamau gweithredu ganddi

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd yn 2013. Pennodd hwn dri tharged i wella diogelwch ar y ffyrdd o'i gymharu â'r llinell sylfaen gyfartalog ar gyfer 2004-2008 a chyrraedd sefyllfa erbyn 2020 lle byddai:

- 40 y cant yn llai yn cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru;
- 25 y cant yn llai o feicwyr modur yn cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru; a
- 40 y cant yn llai o bobl ifanc (16-24 oed) yn cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru.

Adolygwyd y Fframwaith Diogelwch Ffyrdd yn 2018. Mae'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth presennol yn ymrwymo i:

> … adolygu ein fframwaith diogelwch ar y ffyrdd er mwyn cefnogi ein dull Gweledigaeth Sero o ymdrin â diogelwch ar y ffyrdd, yn seiliedig ar y gred nad oes yr un farwolaeth nac anaf difrifol yn dderbyniol ar ffyrdd. Bydd hyn yn helpu i gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol o ran hygyrchedd a diogelwch fel awdurdod priffyrdd ac yn ategu ein gwaith ar deithio llesol, ailddyrannu gofod ffyrdd a therfynau cyflymder.

Nodir mai'r amserlen ar gyfer y diweddariad yw "2022 i 2024". Ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar y strategaeth newydd a ddaeth i ben ar 31 Ionawr 2024.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n diweddaru ei chanllawiau o 2009 ar Osod Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru yn sgil ei pholisi terfyn cyflymder 20mya yn ogystal â pholisïau eraill megis Net Sero Cymru a Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyflwyno Datganiad Polisi Ffyrdd newydd, gan weithredu argymhellion y panel adolygu ffyrdd. Caiff ei gasgliadau ac ymateb Llywodraeth Cymru eu crynhoi yn yr erthygl hon gan Ymchwil y Senedd.

Mae'r datganiad polisi yn ei gwneud yn glir y bydd dibenion adeiladu ffyrdd yn y dyfodol yn gyfyngedig i gefnogi newid moddol, i addasu hinsawdd, i gefnogi mynediad cynaliadwy i safleoedd datblygu economaidd, ac i "wella diogelwch [ffyrdd] drwy newidiadau ar raddfa fach".

Mae llythyr gan Lee Waters, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, at y Cadeirydd ar y ddeiseb hon yn dweud y canlynol:

> Yn dilyn gweithredu terfyn cyflymder o 50mya ar ffordd gyswllt yr A4042 heibio i'r Ardd Gudd, mae opsiynau wedi eu harchwilio, ar gam rhagarweiniol, i wella diogelwch y cyhoedd sy'n teithio o gwmpas y pwynt mynediad.

Mae ymchwiliadau wedi eu cynnal yn ddiweddar i sicrhau bod modd cyflawni'r opsiynau hyn o ran y tir sy'n ofynnol ar gyfer y gwelliannau cysylltiedig i'r gyffordd sy'n cynnwys darpariaeth teithio llesol. Rydym yn disgwyl derbyn yr adroddiad dichonoldeb drafft yn fuan.

Yn amodol ar adolygiad ffafriol yn y cyfnod dichonoldeb hwn ac a fydd cyllid ar gael, byddai'r cynllun wedyn yn symud ymlaen i ddyluniad manwl yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25.

## 3. Camau gan Senedd Cymru

Nid yw'n ymddangos bod mater diogelwch ffyrdd ar y rhan hon o'r ffordd wedi'i godi yn y Senedd.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1408
Ein cyf/Our ref LW/00349/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

05 Mawrth 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Chwefror yn amgáu deiseb P-06-1408 ynghylch mynediad diogel i gerddwyr a cherbydau i'r Ardd Gudd o'r A4042 Goytre Fawr gan Janet Elizabeth Butler.

Yn dilyn gweithredu terfyn cyflymder o 50mya ar ffordd gyswllt yr A4042 heibio i'r Ardd Gudd, mae opsiynau wedi eu harchwilio, ar gam rhagarweiniol, i wella diogelwch y cyhoedd sy'n teithio o gwmpas y pwynt mynediad.

Mae ymchwiliadau wedi eu cynnal yn ddiweddar i sicrhau bod modd cyflawni'r opsiynau hyn o ran y tir sy'n ofynnol ar gyfer y gwelliannau cysylltiedig i'r gyffordd sy'n cynnwys darpariaeth teithio llesol. Rydym yn disgwyl derbyn yr adroddiad dichonoldeb drafft yn fuan.

Yn amodol ar adolygiad ffafriol yn y cyfnod dichonoldeb hwn ac a fydd cyllid ar gael, byddai'r cynllun wedyn yn symud ymlaen i ddyluniad manwl yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25.

Yn gywir,

**Lee Waters AS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**P-06-1408 Make safe the access to the Secret Garden A4042 Goytre Fawr for both pedestrians and vehicles – Correspondence from the Petitioner to the Committee, 11 March 2024.**

Hi, Further comments I wish to add:

1. I note that recent investigations have taken place at the site. I am also aware that draft plans were shared with Goytre Community Council prior to Covid. The draft feasibility report needs to be shared with the community council who have not had further feedback.
2. The two bus stops on either side of the road need appropriate footpaths to allow access – currently pedestrians have to walk on the grass verges.
3. There is no warning that pedestrians might be crossing here.
4. In the long term an active travel footpath alongside the A4042 must be considered.
5. There is a public right of way from the village of Little Mill to the back of the Garden Centre – could improvements be sought to this?
6. I am pleased to note that should there be a favourable review at this feasibility stage and funding be available that the detailed design might progress in the 2024/2025 financial year.

Kind regards,

Jan Butler,

County Councillor

# Eitem 4.1

**P-06-1326 Dylai'r Senedd graffu ar y sgandal mesuryddion rhagdalu yng Nghymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Bethan Sayed, ar ôl casglu cyfanswm o 299 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Rydym yn galw ar y Senedd i gynnal ymchwiliad i'r sgandal mesuryddion rhagdalu.
Dros y ddau fis diwethaf, mae tystiolaeth wedi dod i'r amlwg bod miloedd o bobl sydd wedi'u symud i fesuryddion rhagdalu heb y gwiriadau gofynnol o ran a ydynt yn agored i niwed.
Rydym ni yn Climate Cymru ac ymgyrchwyr eraill wedi bod yn datgelu'r sgandal hwn.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Gweler lincs i straeon gan newyddiadurwyr ymgyrchu fel Dean Kirby yn y papur newydd o'r enw i.
- Forced installations of prepayment meters to stop as courts ordered to end issuing warrants (inews.co.uk)
- Prepayment meters must be removed for vulnerable families as compensation is not enough, Grant Schapps told (msn.com)
- i morning briefing: How the prepayment meter scandal was uncovered, and forced change (msn.com)
- Prepayment meters: Grant Schapps gives energy firms until Tuesday to consider compensation (inews.co.uk)
- Prepayment meter investigation - inews.co.uk

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Canol Caerdydd
- Canol De Cymru

**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-06-1326
Ein cyf/Our ref: Adroddiad y Pwyllgor Deisebau – Gaeaf Cynhesach

Jack Sargeant MS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

18 Ionawr 2024

Annwyl Jack,

Rwyf wedi darllen gyda diddordeb adroddiad y Pwyllgor Deisebau, Gaeaf Cynhesach, a gynhyrchwyd o ganlyniad i'ch ymchwiliad yn dilyn sgandal gosod gorfodol mesuryddion rhagdalu'r gaeaf diwethaf. Diolch i'r pwyllgor am eu gwaith yn cynnal yr ymchwiliad ac am eich argymhellion.

Rwy'n benderfynol o wneud popeth o fewn fy mhwerau i sicrhau nad oes sgandal o'r fath yn digwydd eto. Fe welwch ymateb ysgrifenedig wedi ei atodi i'r adroddiad hwn sy'n ymdrin â phob un o'r 8 argymhelliad y mae'r Pwyllgor wedi eu gwneud.

Yn gywir

**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Deisebau – 'Gaeaf Cynhesach - P-06-1326 Dylai'r Senedd graffu ar y sgandal mesuryddion rhagdalu yng Nghymru'**

---

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Deisebau am eu hadroddiad ar y sgandal mesuryddion rhagdalu yng Nghymru, sydd wedi gwneud nifer o argymhellion pwysig. Rwy'n hynod falch o weld bod argymhellion y Pwyllgor yn cyd-fynd â'n safbwyntiau polisi a'n camau gweithredu. Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad isod.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan yn glir ei phryderon ynghylch defnyddio mesuryddion rhagdalu ers cryn amser. Ysgrifennais at gyflenwyr ynni mor bell yn ôl â Thachwedd 2022, a chyfarfod â hwy wedi hynny, i bwysleisio ein bod o'r farn nad oedd y cynnydd yn yr arfer o osod mesuryddion rhagdalu yn orfodol yn dderbyniol. Roeddem yn gwrthwynebu ar y sail bod yr arfer yn dileu gallu aelwydydd i ledaenu cost eu hanghenion ynni yn gyfartal dros gyfnod o 12 mis ac ar sail cost gyffredinol oherwydd, ar y pryd, tariffau rhagdalu oedd y dulliau talu drutaf. Roedd yn amlwg y byddai llawer o aelwydydd yn hunan-ddatgysylltu o ganlyniad i hyn. Cefais sicrwydd yn y cyfarfod y byddent yn cefnogi aelwydydd yng Nghymru yn ystod gaeaf 2022/23.

Bu i'r sgandal rhagdalu a gododd y gaeaf hwnnw ddinistrio aelwydydd ac ychwanegodd at y pwysau yr oedd teuluoedd eisoes yn eu profi drwy'r argyfwng costau byw. Rhoes adroddiadau cythryblus y wasg gryn sioc a siom i mi pan glywais am gasglwyr dyledion yn torri i mewn i gartrefi, gan gynnwys aelwydydd pobl agored i niwed, a'u gorfodi i dderbyn mesuryddion rhagdalu.

Wrth i Ofgem gyhoeddi ar 10 Ionawr fod tri chyflenwr wedi darparu tystiolaeth a sicrwydd eu bod wedi bodloni amodau'r rheoleiddiwr ar gyfer ailgychwyn gosod mesuryddion yn anwirfoddol, mae'n hanfodol bod cyflenwyr yn cadw at y rheolau y mae Ofgem wedi eu gosod, a bod aelwydydd agored i niwed yn cael eu hamddiffyn rhag arferion diegwyddor.

**Argymhelliad 1**

Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi creu tariff cymdeithasol newydd i bobl agored i niwed er mwyn darparu mwy o gefnogaeth i'r rhai sydd â'r angen mwyaf.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi galw'n gyson dro ar ôl tro ar Lywodraeth y DU i gyflwyno tariff cymdeithasol i ddiogelu'r aelwydydd mwyaf agored i niwed. Rydym yn galw arnynt i ddilyn esiampl y diwydiant dŵr, lle mae cwmnïau'n cael eu gwahardd gan y gyfraith rhag datgysylltu neu gyfyngu ar gyflenwadau dŵr i aelwydydd sydd mewn dyled ariannol iddynt.

Pan ymrwymodd y Canghellor yn Natganiad yr hydref 2022 i ddatblygu dull newydd o ddiogelu defnyddwyr, gan gynnwys yr opsiwn o dariff cymdeithasol a fyddai'n berthnasol o fis Ebrill 2024, roeddem yn dechrau gobeithio y byddai pethau'n newid

o'r diwedd. Rydym bellach yn wynebu gaeaf heriol arall, ac mae'n destun pryder mawr nad ydym eto wedi gweld unrhyw beth pellach ar yr ymrwymiad hwn. Cefais gyfarfod â Gweinidog Defnyddwyr Ynni a Fforddiadwyedd y DU ym mis Tachwedd i drafod y mater hwn ac er i mi glywed geiriau cynnes, nid oedd ymrwymiad pendant i ymgynghori na gwneud cyhoeddiad.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gellir ariannu tariff cymdeithasol mewn ffordd flaengar sy'n cefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed heb gael effaith negyddol sylweddol ar aelwydydd eraill. Mae gwres a phŵer yn wasanaethau hanfodol a dylid cynnig tariff cymdeithasol i bobl sy'n agored i niwed er mwyn sicrhau cyflenwad fforddiadwy.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

**Argymhelliad 2**

Dylai Llywodraeth Cymru edrych ar sut y gall wella gwasanaethau cynghori y gaeaf hwn, yn enwedig y rhai sydd wedi'u hanelu at y rhai mwyaf agored i niwed yn y gymdeithas. Gallai hyn gynnwys darparu cyllid ychwanegol, a/neu ymgyrch hysbysebu fwy gweladwy sy'n cyfeirio pobl at gyngor.

**Ymateb: Derbyn**

Er mwyn ymateb i'r argyfwng costau byw, cynyddwyd y cyllid i'r gwasanaeth cynghori Nyth ar gyfer gaeaf 2022/23. Cynyddodd y galw am gefnogaeth ar y llinell gyngor rhad ac am ddim o 15,000 y flwyddyn i 22,000 y flwyddyn. Gan fod cost ynni yn parhau yn bryder allweddol i aelwydydd Cymru, rydym wedi parhau i ariannu'r gwasanaeth ategol hwn eleni.

Byddwn yn atgyfeirio pobl at y gwasanaeth cynghori Nyth drwy'r ymgyrch costau byw Yma i Helpu[1] y gaeaf hwn.

Hefyd, rydym wedi lansio ein gwefan Gweithredu Hinsawdd Cymru[2] yn ddiweddar, sy'n rhoi cyngor ar ddefnyddio ynni yn y cartref ynghyd â chamau eraill y gall pobl eu cymryd i leihau eu heffaith ar newid hinsawdd. Mae'r rhain yn cynnwys camau i leihau biliau tanwydd a defnyddio ynni yn fwy effeithlon yn ogystal â gosod technolegau ynni adnewyddadwy ac offer sy'n effeithlon o ran ynni.

O ran cymorth ehangach, eleni mae dros £11 miliwn ar gael ar gyfer gwasanaethau Cronfa Gynghori Sengl Llywodraeth Cymru. Mae'r gwasanaethau hyn yn achubiaeth i bobl sy'n cael trafferth gyda chostau byw, ac yn eu helpu i wneud y mwyaf o'u hincwm a delio â'u dyledion.

Mae'r Gronfa Gynghori Sengl yn brosiect penodol sy'n targedu cyngor i'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda darparwyr y Gronfa Gynghori Sengl i sicrhau bod pobl o'r grwpiau poblogaeth mwyaf ymylol a difreintiedig yng Nghymru yn cael y cyngor ar ddyledion sydd ei angen arnynt cyn

[1] Yma i helpu gyda chostau byw | LLYW.CYMRU
[2] Polisïau'r Llywodraeth: Newid Hinsawdd – Gweithredu ar Hinsawdd Cymru

gynted â phosibl. Rwy'n falch bod model cyflawni'r Gronfa Gynghori Sengl wedi llwyddo i gyrraedd pobl yn gynt, gyda 55% o bobl yn cael cymorth cyn i bethau fynd yn argyfwng.

Rwy'n gwybod y bydd costau byw yn parhau i gynyddu'r galw am fynediad at wasanaethau cynghori ac mae'n bwysig ein bod yn cynnal ein gwaith cydweithredol gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod polisïau ar waith i gwrdd â'r heriau sydd o'n blaenau. Rwy'n croesawu cyhoeddi adroddiad diweddar Ofgem sef [Cael help os na allwch fforddio eich biliau ynni | Ofgem] sy'n nodi camau amddiffyn y maent wedi gofyn i gyflenwyr ynni eu gweithredu ar gyfer aelwydydd agored i niwed y gaeaf hwn a bydd yn cyfeirio aelwydydd i'r safle hwn.

**Goblygiadau ariannol – dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol.**

**Argymhelliad 3**

Dylai Llywodraeth Cymru drafod gyda darparwyr cyfleustodau a fyddai'n bosib - o fewn terfynau rheolau diogelu data - i sicrhau, lle mae un sefydliad yn ymwybodol bod cwsmer yn agored i niwed, ei fod yn cael mwy o amddiffyniad yn awtomatig gan gyflenwyr eraill.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn gefnogol iawn i'r dull hwn, fel y cadarnhaodd y Prif Weinidog yn y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ym mis Rhagfyr. Dylid defnyddio rhannu data er budd y cwsmer a dylid gwneud pob ymdrech i ddatblygu dull cadarn sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, wedi'i gyd-gynhyrchu â chynrychiolwyr y rhai yr effeithir arnynt.

Mae fy swyddogion wedi trafod hyn gydag Ofgem, sydd hefyd yn gefnogol iawn i'r dull hwn o rannu data. Cynhaliodd Ofgem uwchgynhadledd ar fregusrwydd yn yr haf i archwilio'r posibilrwydd o rannu data rhwng rheoleiddwyr ac maent yn ystyried y ffordd orau o ddatrys materion diogelu data.

Mae ymgynghoriad eang yr Adran Busnes a Masnach ar Reoleiddio Doethach[3]: Cryfhau rheoleiddiad economaidd y sectorau ynni, dŵr a thelathrebu, sy'n cau ar 28 Ionawr, yn cynnwys adran ar gefnogi defnyddwyr. Mae'n cynnwys cynnig i helpu cwsmeriaid sy'n agored i niwed trwy gael un Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth amlsector fel y gellir rhannu data rhwng darparwyr gwasanaethau os yw cwsmer eisoes wedi hysbysu un ohonynt ei fod angen cymorth ychwanegol a'i fod yn fodlon i'w wybodaeth gael ei rhannu â darparwyr eraill. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb yn ffurfiol i'r mater hwn i gofrestru ein cefnogaeth i'r cynnig a chynnig cydlynu mewnbwn rhanddeiliaid yng Nghymru yn ei ddyluniad.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

[3] Rheoleiddio Doethach: Cryfhau rheoleiddiad economaidd y sectorau ynni, dŵr a thelathrebu

**Argymhelliad 4**

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU ac Ofgem i sicrhau bod mwy o eglurder ynghylch pwy sydd â'r pŵer i rewi'r broses o osod mesuryddion rhagdalu. Dylai'r pŵer hwnnw gael ei roi i unigolyn a enwir (yn Ofgem, a/neu'r Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth y DU).

**Ymateb: Derbyn**

Byddai angen deddfwriaeth yn Senedd y DU er mwyn gwahardd cyflenwyr rhag gosod mesuryddion rhagdalu. Cyfrifoldebau'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net yw mesuryddion rhagdalu.

Nid oes gan Ofgem y pŵer i wahardd mesuryddion rhagdalu, ond gallant ddylanwadu ar gyflenwyr trwy godau ymarfer a'r amodau sy'n gysylltiedig â chytundebau trwyddedau'r cyflenwyr.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

**Argymhelliad 5**

Dylai Ofgem fonitro effaith y Cod Ymarfer - gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhai sydd ar y terfynau oedran uchaf ac isaf. Yn benodol, rydym yn pryderu am y grŵp oedran 65-75 nad ydynt yn manteisio ar yr amddiffyniad mwyaf posibl i'r rhai dros 75 oed, ac aelwydydd â phlant cyn ysgol sy'n hŷn na'r terfyn dwy flwydd oed. Roedd y Pwyllgor yn synnu ac yn siomedig nad oedd y terfynau hyn sy'n seiliedig ar oedran yn fwy hael.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi galw am waharddiad ar fesuryddion rhagdalu. Er mai gwaharddiad yw ein dewis o hyd, rwy'n falch bod Ofgem wedi cynnwys y gofynion a nodwyd yn wreiddiol yn eu Cod Ymarfer ar Fesuryddion Rhagdalu Anwirfoddol yn nhrwydded pob un o'r cyflenwyr ynni. Mae hyn yn rhywbeth roeddwn i wedi galw amdano pan gyhoeddwyd y Cod ym mis Ebrill.

Pan gyhoeddwyd y cod yn wreiddiol, roedd yr aelwydydd â'r risg uchaf yn cynnwys pobl dros 85 oed heb unrhyw gyfeiriad at blant. Mae gostwng y terfyn oedran uchaf o dros 85 i dros 75 oed a chynnwys darpariaethau ar gyfer plant cyn oed ysgol o dan 2 oed yn gam i'r cyfeiriad cywir.

Mae Ofgem yn credu bod y grwpiau oedran wedi cael eu gosod yn briodol, yn dilyn ymgynghoriad a mewnbwn gan glinigwyr. Bydd pobl rhwng 65 a 75 oed yn cael eu hystyried os oes ganddynt gyflyrau iechyd. Rhaid i gyflenwyr hefyd asesu addasrwydd mesurydd rhagdalu lle mae plant 5 oed ac iau.

Rwyf wedi cynghori Ofgem y bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'r sefyllfa'n agos dros y gaeaf i sicrhau bod y rheolau'n gweithio a bod aelwydydd cymwys yn cael eu diogelu. Mae Ofgem wedi cadarnhau y bydd yn adolygu'r polisi ac yn gwneud

diwygiadau os gwelir ei fod yn aneffeithiol wrth amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

**Argymhelliad 6**

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a oes ganddynt unrhyw dystiolaeth a allai gefnogi diwygio'r cod i ostwng y terfyn oedran hŷn a/neu gynyddu'r oedran i aelwydydd â phlant i gynnwys yr holl blant cyn oed ysgol.

**Ymateb: Derbyn**

Ar hyn o bryd, nid oes gennym dystiolaeth sylweddol i argymell diwygio penderfyniad Ofgem. Newidiwyd y cynigion gwreiddiol i ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a mewnbwn yr arbenigwyr clinigol. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo i weithio gydag Ofgem i fonitro'r sefyllfa ac i herio barn y sefydliad fel y bo'n briodol, os daw tystiolaeth o'r fath i'r amlwg.

Yn anffodus, mae'r argyfwng costau byw yn golygu bod pobl o bob oed bellach yn fwy tebygol o fod yn cael trafferth talu eu costau ynni. Rydym yn galw ar gyflenwyr i gefnogi eu cwsmeriaid yn ystod y cyfnod hwn, a defnyddio mesuryddion rhagdalu fel dewis pan fetha popeth arall yn unig, neu pan fo cwsmeriaid yn gofyn amdanynt.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

**Argymhelliad 7**

Dylai Ofgem weithio gyda chyflenwyr ynni i fonitro sut mae penderfyniadau ynghylch bod yn agored i niwed yn cael eu gwneud, a chan bwy. Nid cwmnïau casglu dyledion, sydd â’r prif nod o adennill dyled, ddylai fod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch pwy sy'n agored i niwed.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Ofgem yn glir mai cyfrifoldeb y cyflenwyr ynni yw penderfynu pwy sy’n agored i niwed, ac y dylai cyflenwyr fod yn hyderus eu bod wedi asesu a nodi unrhyw fregusrwydd yn gywir cyn cymryd unrhyw gamau.

Rhaid i bob cyflenwr basio Adolygiad Ofgem ar gyfer Cydymffurfio â'r Farchnad, ymhlith gwiriadau eraill, cyn y gallant ail-ddechrau'r broses o osod mesuryddion rhagdalu. Hefyd, mae rheolau llym y mae'n rhaid i gyflenwyr a chwmnïau casglu dyledion gadw atynt, sef gwneud 10 ymgais o leiaf i gysylltu â chwsmer, cynnal ymweliad i ystyried lles, ac ymatal rhag gosod mesuryddion ar gyfer y cwsmeriaid risg uchaf.

Rhaid i gyflenwyr ddilyn y broses hon ac ni ddylent drosglwyddo unrhyw gwsmeriaid sydd yn y categorïau agored i niwed i gasglwyr dyledion.

Bûm mewn cyfarfod ag Ofgem ym mis Tachwedd i drafod cynlluniau'r gaeaf ar gyfer cwsmeriaid agored i niwed a chodais y mater ein bod wedi cael gwybod gan randdeiliaid am achosion lle mae pobl yn cael eu bygwth â mesuryddion rhagdalu yn y dyfodol, hyd yn oed pan fo’n amlwg eu bod yn bodloni amodau esemptiad.

Cadarnhaodd Ofgem fod ymddygiad o'r math hwnnw yn annerbyniol, a bod camau gweithredu y gellid eu cymryd, ac yn wir y byddai’r rhain yn cael eu cymryd, yn erbyn cyflenwyr nad ydynt yn amddiffyn cwsmeriaid agored i niwed. Byddaf yn gweithio gydag elusennau a grwpiau defnyddwyr i fonitro'r sefyllfa.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

**Argymhelliad 8**

Dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut y gall Ynni Cymru, sydd newydd ei sefydlu, annog datblygu tariffau cymdeithasol lleol a’r defnydd ohonynt.

**Ymateb: Cytuno mewn egwyddor**

Fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio, mae Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru yn rhannu uchelgais i sefydlu cwmni ynni sy'n eiddo cyhoeddus i Gymru, Ynni Cymru, i ehangu cynhyrchu ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned. Bydd Ynni Cymru yn gweithio gyda phartneriaid yn y gymuned a'r sector cyhoeddus i optimeiddio’r asedau ynni adnewyddadwy presennol a’u gwneud yn 'fwy clyfar' ledled Cymru. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys y posibilrwydd o ddatblygu dulliau o sicrhau biliau ynni rhatach i gymunedau ynghyd â gwella budd economaidd a chymdeithasol ehangach. Mae’r camau cyntaf i sefydlu Ynni Cymru ar waith ac achos busnes cadarn ar y gweill ar gyfer y sefydliad gan gynnwys y dull o wireddu manteision.

**Goblygiadau ariannol – dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol.**

**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

ofgem
Making a positive difference
for energy consumers

Jack Sargeant

Chair, Petitions Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

Petitions@senedd.wales

Tim.Jarvis@ofgem.gov.uk

13 March 2024

Dear Mr Sergeant,

**Re: Petitions Committee report "A Warmer Winter P-06-1326"**

I am writing to you regarding the recent Petitions Committee report "A Warmer Winter" that concerns the use of involuntary prepayment meters (PPMs). We are grateful to the Committee for undertaking this work and have addressed each of the recommendations that concern Ofgem in the response appended to this letter.

I would like to apologise for the delay in responding to this report and would be happy to discuss these recommendations further if required by the Committee.

Kind regards,



**Tim Jarvis**
**Director General, Markets**

**Petitions Committee report "A Warmer Winter P-06-1326"**

**Ofgem Response**

This response addresses the Ofgem recommendations contained in recent Petitions Committee report "A Warmer Winter". We are grateful to the committee for undertaking this work. Protecting the most vulnerable from unfair practices goes to the heart of our work, and we welcome this report.

Ofgem regards the use of involuntary PPMs as an intervention of last resort. We have taken action to protect the most vulnerable by expanding the categories of customers for whom a PPM must never be installed, in addition to strengthening the protections for customers who do not fall into these categories.

The protections in the Involuntary PPM Code of Practice – initially a voluntary interim measure - are now a mandatory part of the supply licence, and if breached can lead to enforcement action and fines. In addition to these increased protections, we are adjusting standing charges for PPM customers to be aligned with standing charges paid by DD customers which would mean that PPM customers do not face additional costs for their use of energy just because they use a PPM.

We also regularly meet with Welsh Government and a wide range of other stakeholders and will continue to listen to concerns that may be raised about this and other issues related to the energy market.

Our response to the recommendations that concern Ofgem is as follows:

***Recommendation 4. WG should work with the UK Government and Ofgem to ensure there is greater clarity about who has the power to instigate a freeze on fitting prepayment meters. That power should sit with a named individual (in Ofgem, and/or the relevant Minister in the UK Government).***

**Response: Accept in principle**

The current legislative framework means that Ofgem cannot completely ban PPMs or ban them indefinitely. That power is a matter for the UK parliament, as it requires changes to legislation. Suppliers have the statutory power to install PPMs granted under the Gas Act 1986 and the Electricity Act 1989 and can secure rights of entry under warrant granted by the Rights of Entry (Gas and Electricity Boards) Act 1954. The legislative framework gives Ofgem broad licence modification powers to introduce conditions we consider requisite or expedient (whether or not relating to the activities authorised by the licence), having regard to our principal objective and general duties. The legislative framework also gives Ofgem very broad licence modification powers which we have used in various ways to control how and when suppliers install PPM.

However, Ofgem does not think a universal and absolute ban would be in customers' best interests, as many customers find PPMs a helpful and effective way of managing their spend on energy. Smart PPMs can also help suppliers identify customers that are self-rationing/self-disconnecting, allowing them to offer support more quickly. Ofgem must also balance competing priorities - PPMs can play a role

in preventing excessive debts, which would if not repaid would be passed on to all energy consumers.

***Recommendation 5. Ofgem should monitor the impact of the Code of Practice – with particularly focus on those at the upper and lower age limits. Specifically, we are concerned the 65-75 age group who do not enjoy the maximum protection afforded to those over 75, and households with pre-school children older than the 2 years old cut off. The Committee was surprised and disappointed that these age-based limits were not more generous.***

**Response: Accept**

Ofgem's development of the Code of Practice was undertaken with extensive engagement with a variety of stakeholders and balances our responsibilities to protect the most vulnerable consumers with our responsibilities to ensure that debt levels do not reach excessive levels that would risk suppliers failing (with the costs of this falling on all energy consumers). The committee should also be aware that as well as the groups for whom no involuntary installations of PPMs should ever be undertaken, the new rules also include further protections for additional groups of consumers. These are set out in the 'further assessment needed' (FAN) category.

These include, but are not limited to:

- Households with children 5 and under.
- Other serious medical/health conditions (such as neurological diseases (Parkinson's, Huntingdon's, Cerebral Palsy), respiratory conditions, nutritional issues (such as Malnutrition) and mobility limiting conditions (Osteoporosis, Muscular Dystrophy, Multiple Sclerosis).
- Serious mental/developmental health conditions (such as clinical depression, Alzheimer's, dementia, learning disabilities and difficulties, Schizophrenia).
- Temporary situations (such as pregnancy, bereavement).

Suppliers must assess the ability to pay of any household they know or have reasonable cause to believe has a personal circumstance or characteristic that falls under the requirement for FAN, to understand if the customer will be unable to afford their ongoing energy needs.

If a supplier concludes (considering meter type, aftercare support and reasonable energy saving assumptions) that the household will, frequently or for prolonged periods self-disconnect and there is a risk of causing significant consumer harm, then the supplier must consider PPM to be not safe and reasonably practicable.

Suppliers are also encouraged to ensure that PPM installation is safe and reasonably practicable for any household with adults over 65 and/or children under 16.

Ofgem intends to periodically review the rules to check that they are succeeding in their objective of protecting the most vulnerable without unsustainably increasing bad debt, which would add to customer bills. We are approaching supplier restart cautiously and have been explicit about the rules in place and our expectations on suppliers. Our market compliance review work is ongoing and enhanced monitoring

is in place for suppliers that have been allowed to restart the process for Involuntary PPMs.

We will work closely with stakeholders, including consumer groups and charities, to ensure that we continue to receive evidence on any breaches of the supply licence and the consumer outcomes of the PPM protections.

Ofgem will also continue to monitor suppliers' behaviour closely to ensure they are complying with the spirit and letter of these rules. If that is not the case, we will not hesitate to take action.

We have always been clear that the moratorium was voluntary and temporary, and that there are instances where involuntary PPMs are a legitimate last resort for energy suppliers to recover debt from customers, which would otherwise have an impact on everyone's bills. Suppliers have a statutory right to apply for a warrant of entry to install PPM meters for collection of outstanding debt. However, the involuntary installation of PPMs is a difficult decision and one where we've strengthened the rules to balance our statutory objective to protect consumers, suppliers' ability to manage debt, and the possibility of increased bad debt that other consumers would need to pay for.

***Recommendation 7. Ofgem should work with energy suppliers to monitor how decisions on vulnerability are made, and by whom. Debt-collection companies, whose primary interest is the recovery of debt, should not be the decision makers when it comes to deciding who is vulnerable***

**Response: Accept in principle**

Ofgem's Consumer Vulnerability Strategy sets out our priorities until 2025, which includes improving identification of vulnerability and the support services that must be offered to those identified as vulnerable. For energy suppliers, we have introduced a vulnerability principle, which makes delivering fair outcomes for vulnerable consumers an enforceable obligation.
We conducted a market compliance review on how suppliers support customers in vulnerable situations in 2022/23. Suppliers need to have clear governance, policies, procedures, and training in place to ensure they meet their obligations under their Supply Licence. These conditions include proactively identifying and recording customers who are in a vulnerable situation, and offer services to support them, within a Priority Services Register (PSR).

We reviewed suppliers on information they provided to us on how they manage customers in vulnerable situations as part of the review. Where we identified weaknesses in the governance, policies, and procedures, or where there was not adequate information provided in response to our request to assure us, we have required suppliers to take action to address this.

Suppliers are required to make every effort to identify vulnerable customers before applying for and seeking to exercise warrants for involuntary PPM. Suppliers are also required to assess for vulnerability in customers in the 'further assessment needed' category outlined in our response to the previous recommendation.

Suppliers are also required to attempt contact with the customer via multiple channels and conduct site welfare visits.

In circumstances where suppliers have attempted contact via multiple channels and conducted a site welfare visit but have been unable to establish with certainty the level of detriment in association with medium risk characteristics and/or financial assessments, suppliers should apply their own discretion on progression to involuntary PPM, noting that any move to PPM may need to be reversed if vulnerabilities are subsequently discovered in the household.

If the customer has not engaged despite several attempts at contact, a debt collection agency may visit the household and identify any vulnerability. In those circumstances a debt collection agency is required to cease any actions being undertaken should they discover circumstances that a reasonable person would consider demonstrate the customer is vulnerable (and the non-engagement could itself be considered evidence of vulnerability). Energy companies are responsible for the actions of such agencies, and we would expect them to emphasise this when engaging with such agencies.

In instances where a supplier has made the commercial decision to write off unrecoverable debt, the debt collection agency who has purchased the debt will manage consumer vulnerability in line with relevant industry Codes of Practice. Ofgem does not regulate debt collection agencies, but we encourage suppliers to use FCA-authorised debt collection agencies and use Enforcement Conduct Board accredited agents.

Ofgem continues to work with other regulators and engage with stakeholders on our protections for vulnerable customers and welcomes the wider debate on how to drive-up standards in debt collections across the board.

In addition to these recommendations, we are also aware that many stakeholders have asked questions about how customers using PPMs can switch back to other payment methods and the role that credit checks can play in this process.

Our licence conditions (27.1) require a supplier to offer a range of payment methods once a debt has been repaid. Suppliers can run a credit check and are able to request a security deposit (which must be a reasonable amount) from customers with low credit scores. Suppliers must behave in a fair and transparent manner, making this process easy for customers.

I hope the committee finds this information helpful, and once again would like to thank you and the committee for this work.

**P-06-1359 Dylid cynnig yr un cymorth ariannol ar gyfer gofal plant i rieni sy'n gweithio yng Nghymru â’r hyn sydd ar gael yn Lloegr**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Jade Lily, ar ôl casglu cyfanswm o 10,820 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Yn Lloegr, o fis Ebrill 24, bydd pob rhiant sy'n gweithio â phlant 2 oed yn cael 15 awr o ofal plant am ddim. O fis Medi 24, bydd hyn yn cael ei estyn i rieni â phlant 9 mis oed a hŷn. O fis Medi 25, bydd nifer yr oriau o ofal plant am ddim yn cynyddu i 30.
Mewn cymhariaeth, yng Nghymru, bydd yn cymryd tan fis Medi 25 i ddarparu 12.5 awr o ofal plant am ddim i bob rhiant â phlant 2 oed. A hynny heb gynllun ar waith i rieni â phlant 9 mis oed a hŷn na chynyddu nifer yr oriau i 15 neu 30.
Rydym mewn argyfwng costau byw lle y mae gan Lywodraeth Cymru y gallu i gefnogi rhieni sy'n gweithio ond nid yw’n gwneud hynny.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Mae Llywodraeth Cymru yn dewis peidio â chyflwyno'r 12.5 awr o ofal am ddim i rieni â phlant 2 oed fel y cynllun presennol sy’n cynnig 30 awr o ofal plant am ddim i rieni â phlant 3 oed. Yn hytrach, Dechrau'n Deg sy’n arwain. Mae hyn yn fwy cymhleth oherwydd ei bod yn golygu bod yn rhaid i chi aros i'ch cod post fod yn gymwys yn lle bod ar gael i bawb. Ac mae'n rhaid i ddarparwyr gofal plant gofrestru gyda Dechrau'n Deg cyn hawlio’r arian ar gyfer y 12.5 awr.
Y syniad y tu ôl i hyn yw y bydd Dechrau'n Deg yn gwneud i ddarparwyr gofal plant ddarparu gofal o ansawdd uwch i greu canlyniadau gwell i bob plentyn. Ond mae pob darparwr gofal plant cofrestredig yn cael arolygiadau rheolaidd ac mae'r canlyniadau ar gael ar-lein, felly mae modd cael gwybod am yr ansawdd cyn gwneud cais i'r lleoliad.
Yn ogystal, mae plant o ardaloedd "difreintiedig" yng Nghymru lle y mae angen y gofal bob amser wedi cael eu cynnwys gan Dechrau'n Deg ac felly

maent yn gymwys i gael y cynnig gofal plant pan fyddant yn 2 oed i helpu i wella eu canlyniadau.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Bro Morgannwg
- Canol De Cymru

**P-06-1362 Dylid darparu cynnig cyfatebol yng Nghymru i'r cynnig gofal plant newydd yn Lloegr, sef 15 awr, ar gyfer plant 2 flwydd oed o fis Ebrill 2024**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Madelaine Hallam, ar ôl casglu 407 o lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb:**
Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y gall holl rieni plant dwyflwydd oed sy'n gweithio gael hyd at 15 awr o ofal plant am ddim o fis Ebrill 2024.
Ni fydd y budd hwn yn gymwys i bob teulu sy'n gweithio yng Nghymru, fodd bynnag, gan na fydd y rhaglen "Dechrau'n Deg" gyfatebol yn ehangu i bob ardal. Ystyr hyn yw fod teuluoedd Cymru filoedd o bunnoedd yn waeth eu byd na chymheiriaid yn Lloegr, er gwaethaf honiadau gan y Prif Weinidog fod y cynnig yng Nghymru yn "well" gan ei fod yn cynnig 48 wythnos yn hytrach na 38 wythnos ar gyfer plant 3 a 4 mlwydd oed.

**Gwybodaeth ychwanegol:**
Linc i'r cynnig yn Lloegr:
https://educationhub.blog.gov.uk/2023/03/16/budget-2023-everything-you-need-to-know-about-childcare-support/

Pan holwyd Mark Drakeford am y mater
https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-65026019.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- De Clwyd
- Gogledd Cymru

**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1359 / P-06-1362
Ein cyf/Our ref JMSS/00117/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

05 Mawrth 2024

Annwyl Jack,

**P-06-1359 Cynnig yr un cymorth ariannol ar gyfer gofal plant i rieni sy'n gweithio yng Nghymru â'r hyn sydd ar gael yn Lloegr**

**P-06-1362 Cynnig cyfatebol yng Nghymru i'r cynnig gofal plant newydd yn Lloegr, sef 15 awr, ar gyfer plant 2 flwydd oed o fis Ebrill 2024**

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 20 Chwefror 2024, ynghylch y drafodaeth ar y deisebau hyn ar 31 Ionawr 2024.

Yn unol â'ch cais, gweler isod ymateb i'r pedwar pwynt penodol a amlinellir yn eich llythyr.

**<u>C1 a C2 Pa gymorth gofal plant sydd ar gael ar hyn o bryd ac i bwy? Sut gall rhieni gael gafael ar y cymorth hwn?</u>**

| Cyllid Cymorth Gofal Plant | Crynodeb o'r cymorth a sut i gael gafael arno |
|---|---|
| | |
| **Dechrau’n Deg** | Mae Dechrau'n Deg yn darparu gofal plant o ansawdd, wedi’i ariannu’n llawn, i rieni pob plentyn 2-3 oed cymwys am 2 awr a hanner y diwrnod, 5 diwrnod yr wythnos, am 39 wythnos y flwyddyn. Mae plant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn gymwys i gael gofal plant am ddim y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn 2 oed tan y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn 3 oed. Mae gofal plant Dechrau'n Deg yn helpu i baratoi plant i ddechrau dysgu drwy'r Cwricwlwm i Gymru yn 3 oed. |

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy’n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

| | |
|---|---|
| | Help llaw gan Dechrau'n Deg \| LLYW. CYMRU<br><br>Mae mwy o blant yn gymwys bellach i gael gofal plant Dechrau'n Deg a ariennir yn sgil y gwaith i ehangu darpariaeth y blynyddoedd cynnar. Dechreuodd y broses o gyflwyno cam 1 yr ehangu ym mis Medi 2022, a daeth i ben ym mis Mawrth 2023. Roedd cam 1 yn cynnwys cynnig holl wasanaethau Dechrau'n Deg i tua 2,500 o blant ychwanegol o dan bedair oed.<br><br>Dechreuwyd cyflwyno cam 2 ym mis Ebrill 2023. Ein nod yw ymestyn elfen gofal plant Dechrau'n Deg i 9,500 yn fwy o blant erbyn diwedd 2024/25. |
| **Cynnig Gofal Plant Cymru** | Mae'r Cynnig Gofal Plant, sydd wedi bod ar gael ledled Cymru ers Ebrill 2019, yn darparu 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant wedi'u hariannu gan y llywodraeth i rieni cymwys sydd â phlant tair a phedair oed, am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Yn ystod y tymor (39 wythnos o'r flwyddyn) mae'r Cynnig yn adeiladu ar yr ymrwymiad presennol i addysg gynnar sy'n rhoi o leiaf 10 awr yr wythnos o ddarpariaeth i bob plentyn tair a phedair oed. Am y 9 wythnos sy'n weddill, mae'r Cynnig yn ariannu 30 awr o ofal plant yr wythnos. I fod yn gymwys ar gyfer y Cynnig, rhaid i riant:<br>• fod â phlentyn cymwys 3 neu 4 oed;<br>• fod yn gweithio, neu mewn addysg neu hyfforddiant (yn unol â'r diffiniad); a<br>• byw yng Nghymru.<br><br>Cynnig Gofal Plant Cymru \| Help gyda chost gofal plant \| LLYW. CYMRU |

| | |
|---|---|
| **Gofal Plant Di-dreth** | Mae Gofal Plant Di-dreth yn gynllun gan lywodraeth y DU sy'n cynnig hyd at £500 bob 3 mis i rieni sy'n gweithio (hyd at £2,000 y flwyddyn) ar gyfer pob plentyn. Os yw plentyn yn anabl, mae'r swm yn codi i £1,000 bob 3 mis (hyd at £4,000 y flwyddyn).<br><br>Gofal Plant Di-dreth - GOV.UK (www.gov.uk) |
| **Grant Gofal Plant - Addysg Uwch** | Gall rhieni israddedig wneud cais am y Grant Gofal Plant, a weinyddir gan Gyllid Myfyrwyr Cymru, i helpu i dalu costau gofal plant tra byddant yn astudio. Mae'r grant yn talu am 85% o gostau gofal plant, hyd at uchafswm o £189 yr wythnos ar gyfer 1 plentyn dibynnol a £324 yr wythnos ar gyfer 2 blentyn dibynnol neu fwy.<br>Cyfrifir y cyllid ar sail incwm y cartref.<br>Caiff rhieni eu had-dalu am gostau gofal plant yn seiliedig ar dystiolaeth o daliadau a wnaed i'w darparwr gofal plant bob tymor.<br><br>Cymorth ychwanegol ar gael os ydych yn fyfyriwr israddedig llawn amser sydd â phlant \| Cyllid Myfyrwyr Cymru |
| **Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn - Addysg Bellach** | Mae'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn yn darparu cymorth gofal plant i fyfyrwyr addysg bellach sy'n byw yng Nghymru. Cronfa sy'n darparu arian yn ôl disgresiwn yw hon, a reolir gan sefydliadau addysg bellach unigol, ond a ariennir gan Lywodraeth Cymru.<br>Mae’r cyllid yn talu am tua 85% o gostau gofal plant, ac yn targedu dysgwyr sy’n profi caledi ariannol. Mae'n darparu cymorth i ddysgwyr cymwys a fyddai fel arall yn methu mynd i’r coleg efallai.<br>Cyfrifir y cyllid ar sail incwm y cartref.<br>Caiff y costau gofal plant a ariennir gan y Gronfa Ariannol Wrth Gefn eu talu'n uniongyrchol i'r darparwr gofal plant gan y sefydliad addysg bellach.<br><br>**Byddai'n rhaid i rieni wneud cais yn uniongyrchol i'w sefydliad addysg bellach.** |
| **Bwrsariaeth Myfyrwyr GIG Cymru – Lwfans Gofal Plant** | Gall myfyrwyr y GIG sy'n derbyn Bwrsariaeth Myfyrwyr GIG Cymru, neu a fydd yn gwneud cais amdani, gyflwyno cais am gymorth ariannol i dalu am ofal plant cofrestredig. Mae Lwfans Gofal Plant GIG Cymru yn talu hyd at 85% o gostau gofal plant cofrestredig neu gymeradwy gwirioneddol hyd at uchafswm net o £128.78 yr wythnos ar gyfer un plentyn a £209.95 yr wythnos ar gyfer dau blentyn neu fwy.<br><br>Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr - Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru |

| | |
|---|---|
| **ReAct+**: | I fod yn gymwys, rhaid i unigolyn fod wedi derbyn hysbysiad diswyddo ffurfiol neu fod o fewn 12 mis i gael ei ddiswyddo. Os ydych rhwng 18 a 24 oed, ac nad ydych mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, mae cymorth ar gael i chi hefyd. Gellir hawlio hyd at £4,500 i helpu gyda chostau gofal plant neu gostau gofal eraill.<br><br>Cyllid newydd ReAct Plws yng Nghymru - Newid Gyrfa Cymru - Academi Hyfforddi (newidgyrfacymru.co.uk)<br>. |
| **Credyd Cynhwysol – Costau gofal plant** | Gall rhieni sy'n gweithio sy'n hawlio Credyd Cynhwysol gael hyd at 85% o'u costau gofal plant yn ôl. Yr uchafswm bob mis yw:<br>• £950.92 ar gyfer un plentyn<br>• £1,630.15 ar gyfer 2 blentyn neu fwy<br><br>Gall rhieni cymwys sy'n hawlio Credyd Cynhwysol hefyd gael help ychwanegol i dalu eu costau gofal plant ymlaen llaw wrth ddechrau ar waith cyflogedig neu gynyddu eu horiau gwaith. Dylai unigolion siarad â'u hyfforddwr gwaith i wneud trefniadau i'w gofal plant gael ei dalu ymlaen llaw.<br><br>Costau gofal plant - Credyd Cynhwysol - GOV.UK (www.gov.uk) |
| Cymunedau am Waith a Mwy | Mae Cymunedau am Waith a Mwy yn cefnogi unigolion dros 20 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, ac sydd dan anfantais neu heb eu cynrychioli'n ddigonol yn y farchnad lafur, gan gynnwys menywod (yn enwedig rhieni unigol), gofalwyr a rhieni y mae gofal plant yn rhwystr i gyflogaeth. Darperir cymorth gofal plant ar sail tymor byr, ar gyfer gweithgareddau fel mynd i hyfforddiant, cyfweliadau neu gyflogaeth, a bydd ar gael pan fydd darpariaeth gofal plant wedi dod i ben yn ystod pedair wythnos gyntaf cyflogaeth ar ôl gadael y rhaglen (gall y rhaglen gyfrannu at ofal plant am hyd at 3 mis). Byddai'r cymorth gofal plant tymor byr hwn yn caniatáu i'r camau angenrheidiol gael eu cymryd i sicrhau bod cyflogaeth yn gynaliadwy.<br><br>I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r tîm Cymunedau am Waith a Mwy yn eich awdurdod lleol, neu ewch i wefan Cymru'n Gweithio \| Cymru'n Gweithio (llyw.cymru) |
| | |

**C3. Sut bydd cymorth gofal plant yn cael ei gyflwyno i deuluoedd eraill yn y dyfodol gan gynnwys amserlenni penodol?**

- Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ein hymrwymo i barhau i gefnogi ein rhaglen flaenllaw, Dechrau'n Deg. Ac, yn unol â'r Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru, rydym wedi ymestyn yr ymrwymiad hwn i fynd ati'n raddol i ehangu'r ddarpariaeth gofal plant ar gyfer y blynyddoedd cynnar i gynnwys pob plentyn dwy flwydd oed, gan roi pwyslais penodol ar gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg.

- Dechreuwyd cyflwyno cam 2 ym mis Ebrill 2023 ac mae'n rhychwantu dwy flwyddyn ariannol (2023-24 a 2024-25). Rydym yn disgwyl cefnogi mwy na 9,500 yn ychwanegol o blant dwy flwydd oed ledled Cymru i fanteisio ar ofal plant o ansawdd gyda Dechrau'n Deg yn ystod cam 2, ac rydym ar y trywydd iawn i gyflawni hynny. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyrraedd ei tharged diweddaraf ar gyfer cam 2, gan gynnig 4,500 o leoedd gofal plant ychwanegol yn ystod 2023-24.

- Bydd y cyllid ar gyfer cam 2 yn cynyddu o £21.65m yn 2023-24 i £24.3m yn 2024-25, a fydd yn caniatáu i fwy byth o blant elwa o'r gofal plant o ansawdd a ddarperir gan y rhaglen ehangu.

- Mae Llywodraeth Cymru yn wynebu'r sefyllfa ariannol fwyaf heriol yr ydym wedi'i hwynebu ers datganoli. O ganlyniad i'r pwysau hyn, nid ydym mewn sefyllfa ar hyn o bryd i gadarnhau unrhyw ddatblygiadau newydd i ofal plant y tu hwnt i 2024-25. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i adolygu'r Cynnig Gofal Plant a rhaglen Dechrau'n Deg, ac rydym yn parhau â'n hymrwymiad i wneud cynnydd pellach i ymestyn darpariaeth y blynyddoedd cynnar, yn ôl yr adnoddau sydd ar gael.

**C4. Sut mae'r cynnig gofal plant yn cael ei hyrwyddo i annog rhieni cymwys i gael mynediad at y cymorth hwn?**

- Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu ymgyrch farchnata genedlaethol sy'n hyrwyddo Cynnig Gofal Plant Cymru mewn partneriaeth â SBW. Nod yr ymgyrch yw hyrwyddo'r Cynnig Gofal Plant ymhlith rhieni a darparwyr, gan annog rhieni i fanteisio a darparwyr i gofrestru ar ei gyfer.


- Mae'r ymgyrch genedlaethol yn codi ymwybyddiaeth o'r Cynnig drwy amrywiol lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, gan ddefnyddio hysbysebion sy'n targedu rhieni a darparwyr. Mae hyn yn cynnwys hysbysebu ar y radio, Google Adverts, TikTok a Facebook, a phecyn cyfryngau cyfathrebu gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol ei ddefnyddio i godi ymwybyddiaeth drwy eu cyfryngau cymdeithasol eu hunain.

Mae pob un o'r 22 awdurdod lleol yn derbyn cyllid ar gyfer Cynnig Gofal Plant Cymru drwy grant gweinyddu. Rhan o gylch gwaith y grant yw hyrwyddo'r Cynnig drwy farchnata a chyfathrebu â phob rhiant a allai fod yn gymwys o fewn eu hardal. Mae hyn yn cynnwys:

- Sicrhau bod staff sy'n gweithio yn nhîm y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn gallu darparu gwybodaeth am y Cynnig.
- Codi ymwybyddiaeth o'r Cynnig drwy negeseuon trydar/sianeli Facebook y gall Llywodraeth Cymru wedyn eu rhannu'n ehangach.
- Cyswllt wyneb yn wyneb â rhieni - er enghraifft, stondinau mewn sioeau, digwyddiadau, ac ati, er mwyn hyrwyddo'r Cynnig yn lleol.
- Creu taflenni a phosteri gan ddefnyddio pecyn cyfryngau cyfathrebu y Cynnig Gofal Plant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.
- Hysbysebu lleol drwy hysbysfyrddau, mewn arosfannau bysiau / ar ochrau bysiau, mewn gorsafoedd trenau, mewn stadiymau ac ati.
- Codi ymwybyddiaeth o'r Cynnig drwy ddarparwyr gofal plant, ysgolion, meddygfeydd a llyfrgelloedd.

Rwy'n gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol ichi.

Yn gywir,



**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

**P-06-1362 Match the new childcare offer in England of 15 hours for 2 year old's from April 2024 - Correspondence from the Petitioner to the Committee, 11 March 2024**

My response to the Deputy Minister is short as there is nothing in her letter that I did not already know, and it is not remotely relevant to the original petition.

The English funded childcare hours for 2 year olds come into affect next month and so it is clear that Wales are **not** going to match the offer and purposefully withhold money allocated from westminster from working parents.

In the 5 years I've lived in Wales I've now seen enough in relation to the atrocious nationalism demonstrated by the Welsh Government Agenda. The scariest part being the failure of the education system with declining PISA scores.

Personally I will be looking to relocate my family over the border to England where I will be financially better off and my children will be better educated. Then I can watch the ship sink safely....

Thanks for all your help Kayleigh.

Kind Regards

Madelaine

**P-06-1369 Defnyddiwch enwau Cymraeg yn unig ar gyfer lleoedd yng Nghymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Mihangel ap Rhisiart, ar ôl casglu cyfanswm o 1,397 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Byddai hyn yn dangos parch tuag at Gymru, fel cenedl sydd â'i hanes a'i diwylliant ei hun; a byddai'n cydnabod rhai o'r ffyrdd y mae Cymru wedi dioddef gorthrwm diwylliannol yn hanesyddol o ran ei hiaith a'i diwylliant. Yn y lle cyntaf, gallai pobl barhau i ddefnyddio enwau Saesneg yn ôl eu harfer. Fodd bynnag, ym mhob cyd-destun swyddogol, ac yn y cyfryngau llafar ac ysgrifenedig, dylid defnyddio'r enwau Cymraeg gwreiddiol ar gyfer lleoedd yng Nghymru.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Yn dilyn datblygiadau yn ymwneud ag enwau Eryri a Bannau Brycheiniog, rydym o'r farn ei bod yn amser da i ddechrau defnyddio enwau Cymraeg yn unig ar gyfer lleoedd yng Nghymru.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Castell-nedd
- Gorllewin De Cymru

**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
deisebau@senedd.cymru

05/03/2024

Annwyl Gadeirydd,

**Deiseb P-06-1369 Defnyddiwch enwau Cymraeg yn unig ar gyfer lleoedd yng Nghymru**

Diolch yn fawr iawn ichi am fy ngwahodd i roi diweddariad am waith y Comisiynydd yn y maes hwn. Fel mae eich briff ymchwil cynhwysfawr yn ei bwysleisio, mae'r Senedd wedi ystyried sawl deiseb yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn ymwneud ag enwau lleoedd Cymru. Ysgrifennodd fy rhagflaenydd, Aled Roberts, atoch am y pwnc hwn yn Rhagfyr 2021 a chafodd y Dirprwy Gomisiynydd ar y pryd, Gwenith Price, ynghyd â Dr Eleri James, sy'n arwain gwaith fy swyddfa ar enwau lleoedd, gyfle i roi tystiolaeth i chi ym mis Mawrth 2022. Nid wyf yn dymuno ailadrodd y sylwadau a wnaethpwyd ganddynt ar y pryd. Yn hytrach, credaf y byddai'n fwy buddiol i'ch diweddaru chi am dri darn o waith arwyddocaol sydd wedi eu cyflawni yn y cyfamser:

1. **Prosiect Peilot Safoni Enwau Llynnoedd ar y cyd â Pharc Cenedlaethol Eryri**

Pan ysgrifennodd Aled Roberts atoch yn 2021 roedd yn pwysleisio mai safoni enwau aneddiadau Cymru oedd ein prif faes gwaith. Mae'r sefyllfa wedi datblygu cryn dipyn ers hynny ac rydym wedi dechrau ymestyn cylch gorchwyl ein Panel Safoni Enwau Lleoedd yn raddol o ganlyniad i alw gan sefydliadau am arweiniad mewn perthynas ag enwau tirweddol. Daeth Parc Cenedlaethol Eryri atom i ofyn am gymorth penodol yn y maes hwn ac esgorodd hyn ar berthynas newydd o gydweithio â'r Parc i safoni enwau nodweddion tirweddol. Cwblhawyd prosiect peilot llwyddiannus ar enwau llynnoedd y llynedd ac, yn dilyn y ffaith bod Awdurdod y Parc wedi pleidleisio'n unfrydol dros dderbyn argymhellion ein Panel, mae'r Arolwg Ordnans wedi cytuno i ddiweddaru eu mapiau â'r ffurfiau hynny, gan gywiro enwau sydd wedi eu camsillafu ar fapiau ers blynyddoedd maith. Rydym bellach wedi symud ymlaen i weithio ar brosiectau i safoni enwau rhaeadrau a bylchau.

**Comisiynydd y Gymraeg**
Uned 2, Bloc C
Doc Fictoria
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg**

comisiynyddygymraeg.cymru

**Welsh Language Commissioner**
Unit 2, Block C
Victoria Dock
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
**Correspondence welcomed in Welsh and English**

welshlanguagecommissioner.wales

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Mae gweithio ar gasgliadau o enwau yn eu tro fel hyn yn caniatáu i ni weld patrymau a sicrhau mesur o gysondeb wrth ymdrin â gwahanol nodweddion daearyddol ac rydym wedi ychwanegu at ein Canllawiau Safoni Cenedlaethol yn sgil y gwaith. Gallwch ddarllen rhagor am ein cydweithio â'r Parc fan hyn: Erthygl - Parc Cenedlaethol Eryri (llyw.cymru).

2. **Ailsefydlu Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru**

Yn dilyn yr ymosodiad seibr difrifol a ddioddefodd fy swyddfa ddiwedd 2020, collwyd seilwaith a chynnwys y gronfa enwau lleoedd oedd yn sail i'r Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru ar ein gwefan. Data elfennol iawn sy'n cael ei gyhoeddi yn y rhestr ar ein gwefan ar hyn o bryd o'r herwydd: Enwau Lleoedd Safonol Cymru (comisiynyddygymraeg.cymru). Serch hyn, mae'n parhau yn adnodd hynod boblogaidd gyda dipyn dros fil o ddefnyddwyr yn ei gyrchu'n gyson bob chwarter. Rydym wedi cymryd camau breision dros y flwyddyn ddiwethaf i ddatblygu cronfa ddata newydd ac i ailboblogi'r gronfa honno ac rydym yn y broses nawr o gynllunio rhyngwyneb defnyddiwr newydd fydd yn ein galluogi ni i rannu llawer o wybodaeth ychwanegol â'r cyhoedd, gan gynnwys dolenni at adnoddau allanol fel Wikipedia a'r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol. Edrychwn ymlaen at lansio'r adnodd newydd yn y flwyddyn ariannol nesaf.

3. **Cynghori Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill ar enwau safleoedd**

Mae ysgrifennu a sillafu enwau'n iawn o'r cychwyn cyntaf dipyn yn haws na chywiro camgymeriadau a newid arferion wedi i enwau ennill eu plwyf, wrth gwrs. O'r herwydd rydym yn croesawu'r cyfleoedd diweddar i gynghori Cyfoeth Naturiol Cymru ar enwau safleoedd newydd, gan gynnwys enwau meysydd parcio a choedwigoedd newydd. Mae canllaw enwau mewnol Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi arweiniad cadarn i swyddogion ynghylch eu dyletswyddau statudol mewn perthynas â'r Rhestr Enwau Lleoedd Hanesyddol ond yn pwysleisio hefyd fod angen i enwau ddilyn egwyddorion ein Canllawiau Safoni ni. Gan mai creu enwau 'newydd' sydd dan sylw mae'r gwaith hwn wedi caniatáu i ni fanteisio'n greadigol ar arbenigeddau ein Panel y tu hwnt i faterion orgraffyddol. Rydym wedi cyflawni gwaith tebyg i Cadw hefyd yn darparu cyngor iddynt am ffurfiau safonol i'w mabwysiadu ar eu safleoedd yng Nghymru.

**Yr angen am adnodd pellach i gyflawni'r gwaith**

Y tu hwnt i'r datblygiadau hyn mae llawer o'r rhwystredigaethau a'r heriau a nodwyd yng nghyd-destun y ddeiseb flaenorol yn parhau. Nid oes sail statudol i waith fy swyddfa yn y maes hwn hyd yma – edrychwn ymlaen yn ddisgwylgar at y rôl arfaethedig fydd gennym yn sgil Bil Senedd Cymru, wrth gwrs – ac felly argymell a cheisio argyhoeddi yw'r unig ddulliau sydd gennym o hyrwyddo ffurfiau safonol. Roedd hi'n hwb darllen yn llythyr y Gweinidog atoch ym mis Hydref ei fod yntau'n cefnogi egwyddor ein Panel Safoni Enwau Lleoedd y dylid anelu at arfer un ffurf yn unig pan nad oes ond llythyren neu ddwy o wahaniaeth rhwng y ffurf 'Gymraeg' a'r ffurf 'Saesneg', gan dueddu at y ffurf Gymraeg. Mae hwn yn gwestiwn amserol fel y tystia'r drafodaeth am y ffurfiau Aberdyfi/Aberdovey fis diwethaf: Cwestiwn ysgrifenedig - WQ91418 - Senedd Cymru. Pe bai sefydliadau yng Nghymru a thu hwnt yn mabwysiadu'r egwyddor hon yn ddi-ffael byddai hynny'n gam arwyddocaol tuag at waredu ffurfiau deuol diangen ar arwyddion a hyrwyddo enwau


Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Cymraeg. Ond hyd nes bod gorfodaeth ar awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill i fabwysiadu ffurfiol safonol, mae'r sefyllfa bresennol yn annhebygol o newid.

Yr hyn sydd wedi newid yn raddol, fodd bynnag, yw agweddau tuag at arddel enwau Cymraeg yn unig. Mae'r ddeiseb dan sylw yn cyfeirio'n benodol at benderfyniadau gan ddau o'n parciau cenedlaethol ni, a does dim dwywaith bod y penderfyniadau strategol hyn wedi rhoi enwau lleoedd yn y penawdau eto ac wedi atgyfnerthu a normaleiddio'r syniad bod enwau Cymru yn bethau i'w gwarchod, i'w dathlu a'u hyrwyddo. Mae'n amlwg bod yna awydd cynyddol ymhlith y cyhoedd yng Nghymru i weld enwau Cymraeg yn cael rhagor o amlygrwydd gan sefydliadau cyhoeddus, gan gynnwys asiantaethau mapio. Ond bydd angen cynyddu buddsoddiad yn y maes hwn er mwyn gwireddu'r uchelgais hwnnw. Mae fy swyddfa i wedi dechrau cynnal nifer o brosiectau yn edrych ar enwau tirweddol ond teg nodi bod ein hadnoddau yn cyfyngu ein gallu i wneud cyfiawnder â'r maes ac i symud yr agenda bwysig hon yn ei blaen yn ddigon cyflym i fodloni dyheadau a disgwyliadau'r cyhoedd.

Dethol rhai o uchafbwyntiau'r gwaith rwyf wedi ei wneud yn y llythyr hwn, wrth reswm – a rheini'n uniongyrchol berthnasol i bwnc y ddeiseb hon. Mae llawer iawn o ddatblygiadau difyr eraill wedi bod yn y maes hwn yn y blynyddoedd diwethaf – gan gynnwys ymestyn ein rôl i gynghori'r Swyddfa Dramor ar ffurfiau Cymraeg safonol ar enwau tramor: Enwau lleoedd tramor (comisiynyddygymraeg.cymru). Buaswn yn hapus iawn i gyfarfod â chi pe baech yn awyddus i dderbyn rhagor o wybodaeth am ein gwaith neu i drafod unrhyw agwedd ar y diweddariad uchod, wrth gwrs.

Yr eiddoch yn gywir,



**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg